# Rheoli Mynediad Cyhoeddus i Ardaloedd o Dir

## Datganiad Cyfreithiol

Bwriedir i'r canllawiau hyn fod yn berthnasol i Gymru yn unig. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yr un fath yn Lloegr ond mae rhywfaint o wahaniaethau yn y is-ddeddfwriaeth ac yn y modd y caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu.

Tra bo Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys y canllawiau hyn yn fanwl gywir nid yw'n gyfrifol am unrhyw fanylion anghywir sydd ynddynt ac nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru chwaith yn honni bod y canllawiau hyn yn cynrychioli datganiad awdurdodol ynglŷn â'r gyfraith. Nid yw chwaith yn honni eu bod yn cynnig cyngor cyfreithiol neu broffesiynol i unrhyw aelod o'r cyhoedd.

Dylai unrhyw ddarllenydd sy'n pryderu am unrhyw faterion a gynhwysir yn y canllawiau hyn, neu sy'n cael eu heffeithio ganddynt, chwilio am ei gyngor cyfreithiol neu broffesiynol ei hun. Nid yw cyfeiriadau at gyrff eraill yn y ddogfen hon yn awgrymu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwarantu neu'n cymeradwyo cywirdeb unrhyw ddatganiadau, barn neu honiadau a leisir ganddynt neu a gynhwysir mewn unrhyw wybodaeth neu gyhoeddiadau a ddarperir ganddynt.

**Contents**

**Mynediad cyhoeddus i ardaloedd o dir**
**Tir Comin**
**Meysydd Trefi a phentrefi**
**Cytundebau a gorchmynion mynediad**
**Tir Mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) 2000**
**Mynediad drwy arferiad (de facto)**
**Tramgwydd sifil tresmasu**
**Tresmasu troseddol**
**Tresmasu dwys**
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**
**Cyfrifoldeb ac atebolrwydd**
**Dyletswydd gofal**
**Deddfwriaeth iechyd a diogelwch**
**Deddfwriaeth berthnasol arall**
**Cyfrifoldeb ar lwybrau penodedig**
**Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus**
**Pwyntiau Allweddol: Atebolrwydd**
**Mynediad i Dir Mynediad dan Ddeddf (CGHT)**
**Beth yw Tir Mynediad CGHT**
**Pwyntiau Allweddol: Tir Mynediad CGHT**
**Mapio**
**Hawliau a chyfrifoldebau – Defnyddwyr hawliau mynediad**
**Hawliau a chyfrifoldebau – rhai â 'budd cyfreithiol yn y tir'**
**Y pwerau sydd ar gael i awdurdodau mynediad**
**Swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Beth yw awdurdodau perthnasol**
**Rheoli tir mynediad CGHT**
**Dull strategol**
**Dulliau rheoli safonol**
**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**
**Cyfyngiadau disgresiwn**
**Drwy gyfarwyddyd yr awdurdod perthnasol**
**Rhoi gwybod i'r cyhoedd am gyfyngiadau**
**Ymestyn hawliau mynediad – cyflwyno tir dan Adran 16**
**Diddymu neu lacio cyfyngiadau cyffredinol ar dir mynediad CGHT nad yw wedi'i gyflwyno**
**Cymorth**

## Mynediad Cyhoeddus i Ardaloedd o Dir

Mae'r tudalennau hyn yn cynnig canllawiau ynghylch y pynciau mwyaf cyffredin a allai effeithio ar unrhyw un sy'n gyfrifol am reoli tir gyda mynediad cyhoeddus, yn cynnwys:

- cymorth i dirfeddianwyr a rheolwyr sydd am gael eglurhad o'r gyfraith sy'n ymwneud â mynediad cyhoeddus i gefn gwlad;
- atebion ymarferol i bobl sydd am gael cyngor ynghylch ffyrdd o gysoni eu buddiannau rheoli tir â darparu mynediad cyhoeddus.

Mae wedi'i anelu at:

- reolwyr tir (sy'n aml yn y sefyllfa orau i ymgymryd â gwaith ymarferol) a'u cynghorwyr;
- staff awdurdodau lleol (sydd â dyletswyddau, pwerau ac arbenigedd ym maes mynediad i gefn gwlad ac sy'n aml yn gallu cynnig cymorth); ac
- unrhyw un sydd â diddordeb mewn rheoli mynediad cyhoeddus i gefn gwlad.

Lle bo'n berthnasol, rydym yn nodi ffynonellau eraill o wybodaeth neu gyngor.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar fynediad cyhoeddus i ardaloedd o dir, yn cynnwys materion yn ymwneud â mynediad a chyfrifoldeb o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac mae'n diweddaru'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyhoeddiad 'Rheoli Mynediad Cyhoeddus' (2005). Wrth ystyried materion cyfreithiol fel tresmasu ac atebolrwydd mae'n bwysig adnabod y gwahaniaeth rhwng trosedd yn erbyn y Goron (trosedd) a ystyrir yn ôl y gyfraith yn drosedd yn erbyn cymdeithas yn ei chyfanrwydd (a gynrychiolir gan y goron) a thramgwydd sifil sef ymddygiad a allai arwain at gamau cyfreithiol rhwng aelodau unigol o Gymdeithas er mwyn penderfynu ar eu hawliau a'u goblygiadau wrth ymwneud â'i gilydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried materion yn ymwneud ag atebolrwydd, oherwydd gallant weithiau godi o'r un set o ffeithiau ac efallai bydd angen taclo'r ddau fath o atebolrwydd.

Mae'n anarferol iawn i dirfeddianwyr unigol gael rheolaeth lwyr dros yr holl hawliau eiddo sy'n gysylltiedig â'u tir. Mae llawer yn dibynnu ar ba hawliau, os o gwbl, sydd gan bobl eraill. Er enghraifft, gallai fod gan forgeisiai arwystl, neu gallai fod gan denant brydles. Hefyd, mae'n bosibl bod gan y cwmnïau cyfleustodau hawddfreintiau ar gyfer eu pibellau, gwifrau a strwythurau cysylltiedig.
Nid yw'r hawliau sydd gan y cyhoedd dros eiddo preifat, yn enwedig hawliau mynediad dros lwybrau penodol neu ardaloedd penodol o dir, yn wahanol o safbwynt y gyfraith i'r hawliau eiddo sydd gan unrhyw berson neu gorff arall. Mae tirfeddianwyr a ffermwyr yn arfer eu hawliau i ddefnyddio a rheoli tir yn amodol ar yr holl hawliau eiddo sydd gan eraill.
Mae gan y cyhoedd hawl mynediad i nifer o ardaloedd o dir comin o ganlyniad i ddarpariaeth o fewn Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925). Gellir cynnig mynediad i ardaloedd o dir hefyd o ganlyniad i Ddeddfau Seneddol penodol sy'n caniatáu i berchnogion tir roi hawliau, neu drwy gytundeb gyda pherchnogion tir. Fe greodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 hawl mynediad i ardal sylweddol o gefn gwlad Cymru. Mae'r ddeddf hon hefyd yn cynnig fframwaith ar gyfer rheoi'r hawl mynediad newydd hwn.

Mae'r llysoedd hefyd wedi derbyn y gall trigolion ardal, ond nid y cyhoedd yn gyffredinol, gael yr hawl i ddefnyddio tir ar gyfer 'chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithiol' lle mae 'na draddodiad o ddefnyddio'r tir ar gyfer y gweithgareddau hyn yn bodoli. Mae mynediad cyhoeddus anffurfiol sy'n bodoli ers amser maith (mynediad drwy hen arfer) yn bodoli mewn sawl ardal er nad yw'n seiliedig ar unrhyw hawl statudol. Adolygir yn fanylach isod y gwahanol fathau o fynediad dros ardaloedd o dir

## Tir Comin

Ceir cryn dipyn o ddryswch ynghylch hawliau cyhoeddus dros 'dir comin'. Mae nifer o bobl yn credu, yn anghywir, bod tir comin yn golygu perchnogaeth gyhoeddus. Mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o dir comin yn dir preifat y mae gan bobl a elwir yn 'gominwyr' hawliau penodol i'w ddefnyddio (e.e. er mwyn pori defaid neu wartheg, casglu coed tân, neu bysgota). Mae'r hawliau hyn yn ychwanegol at hawliau perchennog y comin. Mae peth tir comin yn dir sydd, neu oedd, yn 'dir gwastraff y faenor' nad yw hawliau comin yn berthnasol iddo. Rhaid cofrestru tir comin a hawliau comin mewn cofrestr o Dir Comin – mae hyn yn cynnwys tir sydd eisoes wedi ei gofrestru dan Ddeddf 1965, h.y. ar ddechrau Rhan 1 Deddf Tiroedd Comin 2006, yn ogystal â thir arall a allai fod wedi ei gofrestru felly o dan Ran 1 Deddf Tiroedd Comin 2006. Rhaid i Feysydd Tref neu Bentref gael eu cofrestru mewn cofrestr meysydd tref neu bentref (gan gynnwys tir sydd eisoes wedi ei gofrestru fel Meysydd Tref neu Bentref a thir a allai fod wedi ei gofrestru fel Meysydd Tref neu Bentref dan Ran 1 Deddf Tiroedd Comin 2006.

Yng Nghymru y 22 awdurdod unedol sy'n dal y cofrestrau, fel awdurdodau cofrestru tiroedd comin. Mae tua 1,600 o diroedd comin, sydd â chyfanswm arwynebedd o 175,000 hectar, wedi eu cofrestru. Maent yn gorchuddio tuag wyth y cant o holl arwynebedd y wlad. Mae hawliau mynediad hefyd i diroedd comin ar gyfer hamdden. mae gan y cyhoedd hawl mynediad i

- bob tir comin y mae'r cyfan ohono neu ran ohono wedi'i leoli o fewn ardal cyn-gyngor dosbarth trefol neu gyn-gyngor dosbarth metropolitan (dan Adran 193 Deddf Cyfraith Eiddo 1925) (fe'u gelwir yn aml yn diroedd comin 'trefol'). Ceir hawl i gerdded a marchogaeth ceffylau;
- rhywfaint o dir comin o ganlyniad i weithred ddiofryd (deed of dedication) (a ddatganwyd dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925). Mae'r rhan fwyaf o dir comin y Goron yng Nghymru (tir comin sy'n eiddo i'r Goron, swyddogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth) ar agor i'r cyhoedd o ganlyniad i weithred ddiofryd. Yn yr un modd â thir comin trefol, ceir hawl i gerdded a marchogaeth ceffylau;
- gall trigolion lleol neu'r cyhoedd yn gyffredinol hefyd gael hawliau mynediad dros rai tiroedd comin gwledig penodol dan amryw Ddeddfau Seneddol eraill a chynlluniau rheoli ffurfiol, e.e. 'Cynllun Rheoleiddio' a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae Adran 15 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi'r hawliau hyn i'r cyhoedd hefyd a
- phob tir comin cofrestredig arall, ar droed, ar gyfer hamdden anffurfiol o dan Ddeddf CGHT 2000.

Cyflwynodd Deddf CGHT 2000 fframwaith ar gyfer cyfyngu neu wahardd mynediad cyhoeddus lle bo angen. Fodd bynnag, nid oes modd i berchennog tir ddefnyddio'r cyfyngiadau hyn dros diroedd comin trefol neu dir comin sy'n destun gweithred ddiofryd o dan Adran 193 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925. Y rheswm am hyn yw nad yw'n dir mynediad CGHT.

Dan Adran 38 Deddf 2006 sy'n berthnasol i'r holl diroedd comin cofrestredig, mae angen cael caniatâd Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu unrhyw adeilad neu ffens, neu unrhyw waith arall, a fyddai'n ymyrryd ag unrhyw hawliau mynediad cyhoeddus i dir comin (neu hawliau preifat, e.e. hawliau cominwyr). Mae hyn yn berthnasol i bob ffens, hyd yn oed rhai 'dros dro', waeth beth yw eu diben (e.e. mae dal i fod angen caniatâd i godi ffensys sy'n rheoli stoc am resymau cadwraeth), oni bai eu bod yn cael eu caniatáu'n benodol dan isadrannau 6a, 6b, 6c a 6d (4) Deddf Tiroedd Comin 2006.

Gellir creu tir comin newydd pan fo cominwyr yn cael hawliau tir comin gan dirfeddianwyr. Gallant hefyd gael hawliau drwy braesgripsiwn (cyn belled â bod y defnydd, a weithredir fel pe bai'n hawl, yn para am gyfnod di-dor o ddim llai nag 20 mlynedd) dros dir nad yw eisoes yn dir comin. Yna, gellir cofrestru'r hawliau a'r tir dan Reoliadau 2007 Y Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Trefi neu Bentrefi) (Trefniadau dros dro) (Cymru) a ddaeth i rym ar Fedi 6ed 2007. Mae'r rheoliadau hyn yn disgrifio'n benodol:

- y drefn ar gyfer gwneud cais i gofrestru tir fel maes tref neu bentref
- y drefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau i gofrestru, a'r
- y dull o gofrestru tir fel maes tref neu bentef wedi i'r cais gael ei ganiatáu. Dylid cyflwyno ceisiadau i Awdurdod Cofrestru Tir Comin. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer

cwblhau cais ar gyfer cofrestru tir fel maes tref neu bentref i'w canfod ar wefan Llywodraeth Cymru.
http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/common_land/guidance/section_16_completing_form_engwel.pdf

## Meysydd trefi a phentrefi

Mae meysydd trefi a phentrefi yn ardaloedd o dir sydd wedi'u cofrestru dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965. Yn yr un modd â thir comin, mae rhai'n eiddo preifat ond mae nifer yn eiddo i gynghorau cymuned ac yn cael eu cynnal a'u cadw ganddynt. Diffinir 'Meysydd' fel :

- tir sydd wedi'i neilltuo gan neu dan unrhyw Ddeddf Seneddol er mwyn i drigolion yr ardal allu cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff neu hamdden;
- tir y mae gan drigolion yr ardal hawl draddodiadol i'w ddefnyddio er mwyn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden cyfreithlon;
- tir y mae nifer sylweddol o drigolion yr ardal wedi'i ddefnyddio ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden fel pe bai hawl ganddynt, am gyfnod heb fod yn llai nag 20 mlynedd.

Nid yw'r cymal 'chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon' erioed wedi cael ei ddiffinio mewn cyfraith. Derbyniwyd ei fod yn cynnwys gweithgareddau megis gêm griced y pentref, dawns fai, hedfan barcud a 'gorffwyso ger yr afon'. Bellach, derbynnir bod 'trigolion yr ardal' yn cynnwys trigolion cymdogaeth o fewn ardal. Ni all tir fod yn faes ac yn dir comin ond gall hawliau tir comin fod yn berthnasol i faes. Mae oddeutu 220 o feysydd trefi a phentrefi yng Nghymru wedi cael eu cofrestru yn y modd hwn dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965.
Gellir sefydlu meysydd pentrefi newydd ar sail defnydd, fel pe bai hawl, am gyfnod di-dor heb fod yn llai nag 20 mlynedd. Gellir cyflwyno ceisiadau i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin yn unol â Rheoliadau 2007 Y Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd trefi a phentrefi) (Trefniadau dros dro) (Cymru) sydd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. Dylid diystyru'r defnydd o hawliau tramwy a grëwyd gan Ran 1 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wrth benderfynu a ddylid sefydlu darn o dir yn faes tref neu bentref.

## Cytundebau a gorchmynion mynediad

Gall tirfeddianwyr lunio cytundebau ag awdurdodau lleol, asiantaethau statudol ac adrannau'r llywodraeth er mwyn darparu mynediad cyhoeddus i dir, aer a dŵr. Er enghraifft, gall tirfeddianwyr lunio cytundebau rheoli gydg awdurdodau cynllunio lleol i greu mynediad cyhoeddus dros fathau arbennig o dir a elwir yn 'dir agored' dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (er bod y diffiniad o 'dir agored' at ddibenion llunio cytundebau a gorchmynion mynediad yn ehangach na'r hyn a geir gyda Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000)
Gall tirfeddianwyr hefyd gytuno cytundebau rheolaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol (neu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol ar gyfer tir sy'n gorwedd o fewn ffiniau parc cenedlaethol) o dan Adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sydd â darpariaeth ar gyfer mynediad cyhoeddus.

Gall awdurdodau lleol hefyd greu gorchmynion mynediad i dir agored (yn ôl y diffiniad ehangach), p'run a yw'r tirfeddiannwr yn cytuno ai peidio, dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, er mai yn amal iawn y defnyddir y pŵer hwn. Mae angen i'r gorchmynion gael eu cadarnhau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid rhoi digon o rybudd i'r tirfeddiannwr a rhaid i'r awdurdod dalu iawndal. Ychydig iawn o orchmynion mynediad sy'n bodoli. Yn y rhan fwyaf o achosion lle gellid fod wedi'u defnyddio, cafodd mynediad ei sicrhau drwy gytundeb yn dilyn trafodaethau. Mae llawer o'r tir a fyddai wedi cael ei gynnwys yn y cytundebau hyn bellach yn dir mynediad CGHT.

## Tir Mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) 2000

Mi wnaeth Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 greu hawl i'r cyhoedd gael mynediad i ardaloedd o dir yr ydym yn cyfeirio atynt fel 'tir mynediad CGHT'. Mae tir mynediad CGHT yn cynnwys tir comin cofrestredig a thir agored. At ddibenion Deddf 2000 rydym yn diffinio 'cefn gwlad agored' fel tir sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl yn fynydd-dir, rhostir, gweundir neu fryniau tonnog o laswelltir calchaidd ('down'). Cynhyrchodd Cyfoeth Naturiol Cymru fapiau o'r holl dir CGHT yng Nghymru. Mae mapiau 1:25,000 a mapiau Outdoor Leisure yr arolwg Ordnans, ynghyd â gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dangos tir mynediad CGHT a hefyd rhai mathau eraill o dir lle mae mynediad i'r cyhoedd drwy drefniant o fath gwahanol.
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod y tir â mynediad cyhoeddus iddo wedi cynyddu o tua 9000 hectar ar draws Cymru i gyd ers Mai 2005, pan ddaeth yr hawliau mynediad newydd i rym. Bydd hyd a lled tir mynediad CGHT yn cael ei adolygu bob 10 mlynedd, fan lleiaf.

Mae gan y cyhoedd hawl mynediad ar droed, ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol, i dir mynediad CGHT ac eithrio pan fo cyfyngiadau mewn grym. Ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog ffermwyr a thirfeddianwyr i fabwysiadu agwedd ac opsiwn 'lleiaf cyfyngol' (gweler Rheoli tir mynediad CGHT). Gall pobl sydd â budd cyfreithiol mewn tir mynediad CGHT (megis y tirfeddiannwr, y tenant, rhywun sydd â hawliau pori cyffredin) gyfyngu ar fynediad i'r tir dan amgylchiadau penodol. Gall y cyfyngiadau hyn amrywio o fod yn amod i aros ar lwybr llinellol penodol, i wahardd y cyhoedd yn gyfan gwbl. Gellir caniatáu cyflwyno cyfyngiadau dan nifer o amgylchiadau (gweler 'Cyfyngiadau' am ragor o wybodaeth).
Mae Adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn caniatáu i rydd-ddeiliaid a deiliaid prydlesi hirdymor i gyflwyno tir fel tir mynediad CGHT. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno llawer o'i goetiroedd fel tir mynediad a thrwy hyn wedi ychwanegu bron i 100,000 hectar i gyfanswm arwynebedd tir mynediad CGHT.

## Mynediad drwy arferiad (de facto)

Mae'r cyhoedd, mewn rhai achosion, yn mynd i nifer o ardaloedd o dir nad ydynt wedi cael eu gwahodd yn benodol iddynt a lle nad oes hawliau mynediad ffurfiol yn bodoli. Mae mynediad yn yr achosion hyn yn ffaith (de facto) yn hytrach na'n hawl (de jure). Yn ymarferol, caiff defnydd o'r fath ei oddef yn aml, yn enwedig os mai pobl leol sy'n defnyddio'r tir ac os nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ormodol. Gall cyfuniad o fynediad de facto a mynediad drwy hawl fodoli ar ddarn o dir ; er enghraifft, mae'n bosibl bod gan bobl hawl (de jure) i gael mynediad i ardal ar droed, ond hwyrach bod y tirfeddiannwr yn goddef marchogaeth ceffylau (de facto). Gall mynediad de facto hefyd fodoli oherwydd ei fod yn anymarferol rhwystro neu reoli mynediad i'r tir dan sylw (e.e. ardaloedd eang neu anghysbell).

## Pwyntiau allweddol: Mynediad cyhoeddus i ardaloedd o dir

- Nid oes unrhyw hawl mynediad cyffredinol i dir preifat sy'n ffinio â llwybrau cyhoeddus neu briffyrdd eraill.
- Mae'r rhan fwyaf o dir comin yn dir preifat y mae hawliau tir comin yn berthnasol iddo neu'r hyn sy'n cael ei alw'n 'dir gwastraff y faenor'.
- Mae meysydd trefi a phentrefi'n ardaloedd y mae gan bobl leol hawl mynediad draddodiadol iddynt ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon.
- Gall awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol Llywodraeth Cymru drafod a chytuno cytundebau mynediad gyda thirfeddianwyr, er mwyn darparu ar gyfer defnydd 'hawliau uwch' er enghraifft.
- Ceir hawl mynediad cyhoeddus ar droed, ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol, i'r holl dir a ddangosir ar fapiau terfynol o dir agored a thir comin cofrestredig, yn amodol ar y cyfyngiadau a all fod mewn grym ar dir sydd wedi eithrio.
- Gall rhydd-ddeiliaid a deiliaid prydlesi hirdymor gyflwyno tir fel tir mynediad CGHT.

- Weithiau derbynnir mynediad drwy arferiad (de facto) ar dir agored

## Tramgwydd Sifil Tresmasu

Gallai pobl sy'n crwydro oddi ar briffyrdd, neu oddi ar dir arall nad oes gan y cyhoedd hawl mynediad iddo, heb ganiatâd neu esgus, fod yn euog o dresmasu, sy'n dramgwydd sifil. Hawl gyfyngedig sydd gan y cyhoedd dros briffordd. Caiff ei diffinio fel 'hawl i dramwyo ffordd at ddiben pasio ac ail-basio ac at ddibenion rhesymol achlysurol sy'n gysylltiedig â hynny'. Y dosbarth y mae priffordd yn perthyn iddo sy'n penderfynu'n gyfreithiol a ellir ei defnyddio ar droed, ar geffyl, neu gan gerbydau, boed yn gerbydau peiriannol ai peidio. Er enghraifft, mae cyfraith achosion wedi pennu ei fod yn rhesymol i ddefnyddiwr llwybr troed fynd â bygi gydag ef. Ond er bod y rhan fwyaf o bobl yn derbyn ei bod hi'n rhesymol mynd â chi am dro ar hyd llwybrau cyhoeddus, nid yw hyn wedi'i bennu mewn cyfraith achosion.
Mae cyfraith achosion hefyd wedi pennu'r hyn y gall defnyddwyr ei wneud ar briffyrdd. Er enghraifft, byddai'n dderbyniol cael saib er mwyn edmygu'r olygfa, siarad â phobl sy'n mynd heibio, tynnu llun, sgetsio neu fwyta picnic, ar yr amod nad yw'n achosi rhwystr. Mae p'un a yw gweithgaredd yn dderbyniol ai peidio yn dibynnu ar yr hyn y byddai'r llys yn ei ystyried yn rhesymol dan holl amgylchiadau'r achos penodol hwnnw.

Gall aelodau'r cyhoedd dresmasu'n anfwriadol wrth geisio dilyn llwybrau cyhoeddus. Y ffordd orau i osgoi'r math hwn o dresmasu yw sicrhau bod y llwybrau cyhoeddus yn hawdd i'w dilyn.Mae gosod arwyddion ar hyd llwybr a sicrhau bod gatiau a chamfeydd (stigillau) mewn cyflwr da yn ffordd effeithiol o sicrhau hyn. Caniateir i ddefnyddwyr fynd o gwmpas rhwystr ar lwybr cyhoeddus heb dresmasu, cyn belled ag y bo'r gwyriad yn croesi tir sydd o fewn yr un berchnogaeth â'r tir y mae'r llwybr yn ei groesi. Ond os yw'r tir y mae'r llwybr cyhoeddus yn ei groesi yn erydu i ffwrdd, ar lan afon neu glogwyni arfordirol er enghraifft, nid oes hawl mynd o amgylch y tirlithriad, ac felly mae'n bosibl y bydd y llwybr yn cael ei golli. Mewn rhai achosion, mae defnyddwyr y mae'r tirfeddiannwr neu'r ffermwr yn eu hystyried yn dresmaswyr yn gallu dadlau'n gryf bod ganddynt hawl i ddefnyddio llwybr penodol. Mewn achosion o'r fath, dylid gofyn i'r awdurdod priffyrdd archwilio'r dystiolaeth i gyd fel y gellir cael cadarnhad ynghylch y sefyllfa er budd pawb.

## Tresmasu Troseddol

Gall pobl sy'n achosi difrod wrth dresmasu gyflawni trosedd (e.e. difrod troseddol i eiddo dan Ddeddf Difrod Troseddol 1971) ond nid yw tresmasu fel rheol yn drosedd . Mae tresmasu'n drosedd mewn rhai achosion, er enghraifft ar dir rheilffordd neu lle mae is-ddeddfau milwrol mewn grym.
Enghraifft arall o dresmasu troseddol yw lle mae tir wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a lle gallai tresmaswr, wrth dresmasu, gyflawni trosedd dan Adran 28P Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, os yw'r person hwnnw (heb esgus rhesymol) yn:
dinistrio neu'n difrodi'n fwriadol neu'n fyrbwyll unrhyw fflora neu ffawna neu nodweddion daearegol neu ffisiograffig sy'n peri bod y tir o ddiddordeb arbennig
aflonyddu'n fwriadol neu'n fyrbwyll ar ffawna; a bod yn ymwybodol bod yr hyn y maent yn ei ddinistrio, ei ddifrodi neu aflonyddu arno o fewn SoDdGA,

Yn wir, mae unrhyw berson sy'n peri'r difrod uchod yn fwriadol neu'n fyrbwyll, p'run ai yw'n dresmaswr neu beidio, yn debygol o fod yn cyflawni trosedd.

## Tresmasu Dwys

Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn datgan bod unrhyw un sy'n tresmasu ar dir er mwyn bygwth rhywun sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd cyfreithlon neu er mwyn amharu ar weithgaredd cyfreithlon yn cyflawni trosedd, sef 'tresmasu dwys'. Mae hefyd yn

drosedd anwybyddu cyfarwyddiadau gan swyddog yr heddlu mewn iwnifform i adael y tir, pan fo'r swyddog yn credu bod y person yn euog o dresmasu dwys neu ar fin bod yn euog o dresmasu dwys.

## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae Adran 30 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn rhoi'r pŵer i'r heddlu rannu grwpiau o unigolion dan amgylchiadau arbennig, er enghraifft lle bo sail resymol gan y swyddog i gredu bod unrhyw aelodau o'r cyhoedd wedi cael eu bygwth, eu haflonyddu, eu dychryn neu'u poeni o ganlyniad i bresenoldeb neu ymddygiad grwpiau o ddau neu fwy o bobl a bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem sylweddol a pharhaus yn yr ardal berthnasol. Mae Adran 60 Deddf 2003 yn rhoi'r pŵer i uwch swyddogion yr heddlu symud tresmaswyr sy'n byw mewn cerbydau a/neu garafanau os oes safleoedd pwrpasol eraill i'w cael mewn man arall yn yr ardal.

## Cyfrifoldeb a rhwymedigaeth

Mae llawer o dirfeddianwyr yn pryderu am eu cyfrifoldeb tuag at aelodau'r cyhoedd ar eu tir. Gall y nodiadau isod fod o gymorth i ddeall cyfrifoldebau posib tirfeddianwyr a deiliaid ond nid yw'r wybodaeth hon yn gyngor cyfreithiol na chwaith yn gyngor penodol ar unrhyw achos arbennig. Dylai unrhyw un yr effeithir arno gan y materion hyn ystyried chwilio am gyngor proffesiynol neu gyfreithiol.
Dylai tirfeddianwyr a deiliaid fod yn ymwybodol bod ganddynt ddyletswydd gofal tuag at unrhyw un sy'n mynd ar eu tir, yn ôl y Deddfau Cyfrifoldeb Meddianwyr a deddfwriaeth arall. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i ymwelwyr, ac o dan rai amgylchiadau, tresmaswyr. Mae dyletswydd gofal llai yn ddyledus i bobl sy'n defnyddio hawliau mynediad ar dir mynediad CGHT. Gallai fod gan y ddyletswydd hon oblygiadau o safbwynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Bydd safon y dyletswydd gofal sydd gan un person i un arall yn dibynnu ar union ffeithiau yr achos dan sylw, Mae'n bwysig bod tirfeddianwyr a deiliaid, wrth asesu unrhyw gyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â mynediad cyhoeddus, yn sicrhau eu bod yn deall yn glir beth yw'r sail gyfreithiol i'r mynediad cyhoeddus sy'n bodoli ar eu tir oherwydd bydd hyn yn effeithio ar lefel y dyletswydd gofal sydd ganddynt, fel yr amlinellir isod.

Mae cyfrifoldebau i ymgymryd â gweithgareddau busnes mewn ffordd ddiogel hefyd yn codi dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio, etc. 1974 a'r rheoliadau cysylltiedig. Gall torri cyfraith Iechyd a Diogelwch arwain at achos troseddol ond ni fydd pob achos o dor-cyfraith yn dramgwydd sifil (er y gall tor-cyfraith troseddol fod yn help i ddangos methiant o ran dyletswydd gofal sifil ac am hyn gall iawndal fod yn ddyledus). Yn y rhan fwyaf o achosion o dresmasu, mae'r gwrthwyneb yn wir; hynny yw, gall y tirfeddiannwr ddod ag achos sifil am ddifrod ond ni fydd trosedd wedi digwydd.

## Dyletswydd gofal

Mae Deddf Cyfrifoldeb Meddianwyr 1957 yn amlinellu dyletswydd gofal tuag at bobl sy'n dod ar dir drwy wahoddiad y perchennog neu'r deiliaid neu bobl sydd â chaniatâd i fod yno. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys gofalu am gyflwr y tir fel y bydd ymwelwyr (a allai gynnwys plant o wahanol oedrannau a gallu) yn gymharol ddiogel wrth ei ddefnyddio ar gyfer y dibenion a fwriedir neu a ganiateir. Er enghraifft, dylai ffermwyr gymryd camau i ddiogelu ymwelwyr rhag peryglon sy'n agos i lwybrau cyhoeddus neu sydd mewn ardaloedd mynediad, megis lagwnau slyri neu anifeiliaid peryglus.

Mae Deddf 1957 yn datgan nad yw'r ddyletswydd hon yn golygu bod gan berchennog neu ddeiliaid unrhyw ddyletswydd tuag at berson sy'n barod i dderbyn y peryglon. Dyma osod mewn deddf statudol felly yr egwyddor a geir mewn cyfraith gwlad, sef na ellir anafu, yn gyfreithiol, person sy'n barod i dderbyn y peryglon. Er enghraifft, mae dringwyr a'r sawl sy'n cerdded mynyddoedd yn derbyn peryglon eu camp neu eu gweithgareddau hamdden yn wirfoddol. Os caiff dringwr neu

gerddwr mynyddoedd ei anafu mewn damwain ddringo, bydd unrhyw hawliad yn erbyn y perchennog neu'r deiliad yn debygol o gael ei drechu ar y sail bod y person a anafwyd yn barod i dderbyn y peryglon.

Yn ychwanegol at hyn, gall perchennog neu ddeiliad ei ryddhau ei hun o'r ddyletswydd trwy roi rhybudd digonol o'r perygl i alluogi'r ymwelydd i osgoi'r perygl. Lle mae person yn mynd ar dir at ddibenion busnes, nid oes unrhyw rym i ddatganiad sy'n ymwrthod ag atebolrwydd (megis "Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am …"). Mewn achosion eraill, gall fod yn bosibl ymwrthod ag atebolrwydd cyhyd ag y bo gweithred wedi digwydd i ddwyn sylw pobl at rybudd o'r fath. Mae Deddf Cyfrifoldeb Meddianwyr 1984 yn ymestyn dyletswydd gofal tuag at bobl ar wahân i ymwelwyr, yn cynnwys tresmaswyr, ond dim ond os caiff tri amod eu bodloni sef: bod y perchennog neu'r deiliad yn gwybod, neu y dylai wybod, am y peryglon ar ei eiddo ef/hi; ei fod ef neu hi'n gwybod neu'n amau y gallai pobl fynd yn agos at y perygl hwnnw; a'i bod yn rhesymol disgwyl iddo ef neu hi gynnig peth amddiffyn yn erbyn perygl o'r fath.

Unwaith eto, fel yn achos dyletswydd gofal tuag at ymwelwyr, nid yw dyletswydd gofal tuag at dresmaswyr ac eraill yn berthnasol i berson sy'n derbyn perygl o'i wirfodd a gellir cyflawni'r dylestwydd drwy roi rhybudd digonol o'r perygl.
Nid yw Deddf 1957 yn berthnasol i bawb sy'n arfer eu hawliau dros dir mynediad CGHT ac mae'r ddyletswydd gofal yn llai na'r hyn sy'n ddyledus i dresmaswr dan Ddeddf 1984. Pan fo'r hawliau mynediad ar gael (h.y. pan nad oes unrhyw gyfyngiadau neu waharddiadau mewn grym), nid oes gan y deiliad unrhyw ddyletswydd gofal tuag at ddefnyddwyr dilys tir mynediad CGHT o safbwynt peryglon sy'n codi o:

- nodweddion naturiol y dirwedd neu unrhyw afon, nant, ffos, pwll neu goed;
- person sy'n mynd dros, o dan neu drwy unrhyw derfyn cae, ac eithrio drwy ddefnyddio camfa neu glwyd yn gywir.

Nid yw'r eithriadau hyn yn berthnasol i unrhyw berygl sy'n cael ei greu'n fwriadol neu'n fyrbwyll gan y deiliad.
Yn ogystal, er y gall rhywun sy'n arfer ei hawliau mynediad ar dir mynediad CGHT erlyn y deiliad tir mewn perthynas â mathau eraill o beryglon, gall y llysoedd gymryd y canlynol i ystyriaeth wrth asesu maint unrhyw ddyletswydd sy'n ddyledus dan Ddeddf 1984:
y baich (ariannol neu arall) sydd ar y tirfeddiannwr wrth fodloni ei ddyletswydd gofal;
pwysigrwydd cynnal cymeriad y cefn gwlad (yn arbennig nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu archeolegol);
canllawiau perthnasol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dim ond pan fo hawliau mynediad mewn grym y gellir lleihau dyletswydd gofal y deiliad fel hyn. Os yw mynediad cyhoeddus wedi'i wahardd (er mwyn osogi perygl i'r cyhoedd) neu os yw'r tir wedi'i eithrio, yna mae'r ddyletswydd gofal yr un fath â'r hyn sy'n ddyledus i dresmaswr. Pan fo tir yn cael ei gyflwyno fel tir mynediad CGHT dan Adran 16 Deddf 2000, bydd y ddyletswydd gofal isaf yn berthnasol (h.y. fel ag sy'n digwydd ar dir mynediad CGHT arall).

## Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch

Sail cyfraith iechyd a diogelwch Prydain yw Deddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio, etc. 1974. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r dyletswyddau cyffredinol sydd gan gyflogwyr tuag at weithwyr ac aelodau'r cyhoedd, a'r dyletswyddau sydd gan weithwyr tuag at eu hunain ac eraill. Wrth weithredu'r dyletswyddau hyn mae'r Ddeddf yn nodi y dylid defnyddio'r egwyddor '*cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol'.* Yn fras, nid oes rhaid i gyflogwr gymryd camau i osgoi neu leihau'r perygl os yw'n dechnegol amhosibl i wneud hynny neu os byddai'r amser, y drafferth a'r costau sydd ynghlwm wrth y camau hynny yn hollol anghymesur â'r perygl. Yr hyn y mae'r gyfraith yn ei fynnu yw'r hyn y byddai rheolaeth dda a synnwyr cyffredin yn peri i gyflogwyr ei wneud beth bynnag; hynny yw, edrych ar y peryglon a chymryd camau synhwyrol i fynd i'r afael â nhw. Yn gyffredinol, mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch wrth Weithio 1999 (y Rheoliadau Rheoli) yn nodi'n fanylach yr hyn y mae'n rhaid i gyflogwyr ei wneud er mwyn rheoli iechyd a diogelwch

dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio.  Fel y Ddeddf, maent yn berthnasol i bob gweithgaredd yn y gwaith.  Gofynion allweddol y Rheoliadau yw:
bod gan gyflogwyr a'r hunangyflogedig ddyletswydd i gynnal eu busnes mewn modd a fydd yn osgoi perygl i weithwyr, ymwelwyr ac eraill (gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio cyfleusterau mynediad, gwirfoddolwyr a thresmaswyr);

- bod angen asesiad risg addas a digonol;
- bod rhaid adolygu'r asesiad risg os yw amgylchiadau'n newid yn sylweddol;
- bod rhaid cofnodi'r asesiad risg ar bapur os yw'r busnes yn cyflogi pump neu fwy o weithwyr.  Mae dal i fod angen i gyflogwyr sydd â llai na phump o weithwyr gynnal asesiad risg ond nid oes angen iddynt ei gofnodi – er y byddai'n ddoeth iddynt wneud hynny.

Gall torri'r rheoliadau hyn fod yn drosedd (gall hefyd gael ei gyfrif yn achos o dorri dyletswydd gofal sifil a phe byddai damwain yn digwydd, gallai arwain at hawliadau sifil am iawndal yn erbyn y deiliad gan y sawl sydd wedi'i anafu).  Yn ymarferol, mae mwyafrif y peryglon y mae gweithgareddau busnes yn eu cyflwyno i aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'u hawliau mynediad yn fach iawn.  Ond drwy gynnal asesiad risg, ei gofnodi ac adolygu ei ganlyniadau'n rheolaidd, mae'n debygol y bydd rheolwr tir yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn diogelu ei hun rhag cael ei erlyn, a gallai amddiffyn ei hun yn llwyddiannus pe bai rhywun yn dod ag achos yn ei erbyn.
Mae nifer o sefydliadau wedi cynhyrchu asesiadau risg enghreifftiol er mwyn helpu gweithredwyr busnes i fynd drwy'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau busnes yn drwyadl.  Mae gan Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (yr NFU) fodelau sydd wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer rheolwyr tir sy'n ymdrin â risgiau i aelodau'r cyhoedd.  Bydd y broses asesu risg yn tynnu sylw at y meysydd lle gallai fod angen mesurau i helpu lleihau'r risgiau, megis rhoi arwyddion i fyny.  Os yw tirfeddiannwr yn cytuno i'w dir ef/hi gael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiad – megis cyfarfod cyfeiriannu neu gyngerdd – mae angen cynnal asesiad risg ar gyfer y digwyddiad.  Dylai'r tirfeddiannwr a threfnydd y digwyddiad fod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad a gweithredu'r mesurau rheoli risg sydd eu hangen.

Gellid defnyddio arwyddion i rybuddio ynghylch peryglon sy'n gysylltiedig â lagwnau slyri, adeiladau, peiriannau amaethyddol a rhai gweithgareddau amaethyddol (e.e. chwistrellu plaladdwyr) er enghraifft. Os oes rhywbeth difrifol yn digwydd o ganlyniad i weithgareddau rheoli tir, er enghraifft digwyddiad lle mae'n rhaid i rywun fynd i'r ysbyty, mae Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995 yn mynnu bod y sawl sy'n gweithredu'r busnes yn rhoi gwybod i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch am y digwyddiad.
Am ragor o wybodaeth ewch at wefan  y Gweithgor Iechyd a Diogelwch.
Mae cyngor iechyd a diogelwch hefyd ar gael ar wefan y Llywodraeth.

## Deddfwriaeth berthnasol arall

Prif ddiben Deddf Mwynfeydd a Chwareli 1954 a Rheoliadau Chwareli 1999 yw sicrhau diogelwch, iechyd a lles y rhai sy'n gweithio mewn mwynfeydd a chwareli, ond mae rhai darpariaethau'n amddiffyn categorïau eraill o bobl hefyd.  Er enghraifft, mae gan weithredwr chwarel ddyletswydd i ddiogelu iechyd a diogelwch y rheiny gerllaw'r chwarel sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan weithgareddau'r chwarel.    Mae chwareli gweithredol yn cael eu heithrio'n benodol o ddarpariaethau tir mynediad CGHT dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Gellid ystyried chwarel, boed yn weithredol neu beidio, yn niwsans statudol (dan Adran 151 Deddf Mwynfeydd a Chwareli 1954) ac, os gellir ei chyrraedd o briffordd neu fan cyhoeddus, dylid sicrhau bod rhwystr effeithlon o'i hamgylch sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n gywir er mwyn atal pobl rhag syrthio i mewn i'r chwarel yn ddamweiniol.  Yn yr un modd, dylid cau mynediad neu siafft mwynfa segur yn effeithlon a dylid ei gynnal a'i gadw'n gywir.
Bydd unrhyw fwynfa neu chwarel segur ar dir y ceir mynediad iddo o ganlyniad i Ran I Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn dod o dan ddarpariaethau Deddf 1954 oherwydd bod mynediad cyhoeddus  iddi. Mae gan Awdurdodau Unedol ddyletswydd i gynnal arolwg o niwsansau statudol yn eu hardaloedd ac i ymateb i unrhyw gwynion yn eu cylch. Os ydynt yn credu bod niwsans

statudol yn bodoli mae ganddynt ddyletswydd i roi rhybudd i'r perchennog bod angen iddo ymgymryd â gwaith i ddiddymu'r niwsans. Mae ganddynt y grym, os oes ei angen, i fynnu bod y perchennog yn gweithredu'n briodol i sicrhau bod y niwsans yn saff. Os yw awdurdod unedol o'r farn bod gwaith mwyn segur yn niwsans statudol mae'n debyg y bydd yn hysbysu'r perchennog o'r bwriad i gyflwyno gorchymyn dirymiad.

Mae Deddf Anifeiliaid 1971 yn ddeddfwriaeth bwysig ar gyfer unrhyw un sy'n cadw anifeiliaid oherwydd, yn ôl y Ddeddf, mae'r sawl sy'n cadw anifeiliaid yn 'llwyr atebol' am anafiadau sy'n cael eu hachosi ganddynt. Mae 'llwyr atebol' yn golygu bod y sawl sy'n eu cadw'n gyfrifol hyd yn oed os nad nhw, yn uniongyrchol, sydd ar fai. Er enghraifft, os yw clwyd yn cael ei gadael ar agor ac mae anifeiliaid yn dianc i'r ffordd, mae'n debyg mai'r sawl sy'n cadw'r anifail fyddai'n gorfod talu iawndal pe bai damwain yn digwydd.
Os oes un o'ch anifeiliaid yn anafu rhywun neu'n achosi difrod, mae'n bosibl y byddwch yn atebol os:

- oedd yn debygol o achosi'r math hwnnw o anaf neu ddifrod os nad oedd yn cael ei gadw dan reolaeth; neu
- os oedd unrhyw anaf neu niwed yr oedd yn ei achosi yn debygol o fod yn ddifrifol; ac
- os oedd nodweddion yr anifail a oedd yn peri bod y niwed yn debygol yn anarferol yn y rhywogaeth honno, neu'n anarferol yn y rhywogaeth ac eithrio ar adegau penodol neu dan amgylchiadau penodol, ac
- os oedd y nodweddion hynny'n hysbys i'r perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am yr anifail.

Ceir rhai eithriadau ac mae'n bosibl na fyddwch yn atebol:

- os mai'r person a ddioddefodd yr anaf neu'r difrod oedd ar fai yn llwyr;
- os oedd yr anaf neu'r difrod yn deillio o berygl yr oedd y person yn derbyn o'i wirfodd;
- os oedd yr anaf neu'r difrod wedi digwydd i dresmaswr (dan rai amgylchiadau).

Dylid nodi nad yw pobl, yn amlwg, yn tresmasu pan fod ganddynt hawl i fod yno – er enghraifft wrth ddefnyddio hawliau tramwy neu hawliau mynediad i dir mynediad CGHT (ond yn yr achos olaf mae llai o ddyletswydd gofal tuag atynt nag a geir tuag at ymwelwyr o dan Ddeddfau Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd Deiliaid 1957 a 1984).

Mae dyletswyddau penodol mewn perthynas â theirw ar lwybrau cyhoeddus ac mae rhain yn cael eu disgrifio yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

## Cyfrifoldeb ar lwybrau penodedig

Yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am wyneb priffordd a gynhelir ar gost y cyhoedd (gweler 'Cynnal a Gwarchod' am ragor o wybodaeth). Felly, mae'n dilyn mai'r awdurdod priffyrdd sy'n atebol i ddefnyddwyr priffyrdd sy'n cael eu hanafu oherwydd bod y ffordd mewn cyflwr gwael.

Fodd bynnag, gallai awdurdod priffyrdd gymryd camau gweithredu yn erbyn tirfeddiannwr neu ddeiliad sydd wedi creu unrhyw berygl ar briffordd neu gerllaw iddi neu sydd wedi methu torri llystyfiant sy'n tyfu wrth ymyl neu uwchben priffordd. Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd y tirfeddiannwr yn atebol am anafiadau a achosir gan gamfa neu glwyd ddiffygiol neu beryglus.
O safbwynt priffordd sy'n cael ei chynnal yn breifat, neu arlwybr lle caniateir i bobl dramwyo, y tirfeddiannwr neu'r deiliad sy'n gyfrifol am wyneb y llwybr ac felly gallai fod yn atebol am unrhyw ddamwain.

## Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

Mae'n annhebygol y bydd tirfeddianwyr neu ddeiliaid yn atebol am ymwelwyr ar eu tir sy'n cael damwain wrth gymryd rhan mewn chwaraeon peryglus (e.e. dringo, barcuta, crwydro ceudyllau).

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd deiliaid yn atebol am unrhyw ddamwain sy'n digwydd wrth i ymwelwyr gael mynediad i safle (e.e. clogwyn, copa bryn neu geudwll) os yw'n deillio o weithgareddau rheoli tir. Am y rhesymau hyn, byddai'n ddoeth i ddeiliaid drefnu yswiriant priodol lle bo angen a'i adolygu o bryd i'w gilydd - yn enwedig os yw amgylchiadau'n newid.

Dylai tirfeddianwyr sy'n dymuno sefydlu llwybrau caniataol neu lwybrau toll gadw'r cyfrifoldeb hwn mewn cof a threfnu yswiriant priodol fel bo angen.

## Pwyntiau allweddol: Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd

- Mae gan ddeiliaid ddyletswydd gofal dan y Deddfau Cyfrifoldeb Meddianwyr tuag at bobl sy'n mynd ar eu tir, gan gynnwys tresmaswyr.
- Ar dir mynediad CGHT, nid oes unrhyw ddyletswydd gofal yn ddyledus i ddefnyddwyr tir mynediad CGHT o safbwynt peryglon sy'n deillio o nodweddion naturiol y dirwedd neu beryglon i rywun sy'n croesi terfyn cae (oni bai eu bod yn defnyddio giât neu gamfa yn gywir) , pan fo'r tir yn agored ar gyfer mynediad.
- Gall y llysoedd ystyried cost, ffactorau amgylcheddol a chanllawiau swyddogol wrth bennu maint dyletswydd gofal a pha fesurau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu cymryd wrth fodloni dyletswydd gofal y deiliaid tuag at ddefnyddwyr tir mynediad CGHT.
- Mewn ardaloedd sy'n agored i'r cyhoedd, mae'n rhaid i berchennog neu reolwr mwynfeydd a chwareli (gan gynnwys rhai segur) sicrhau na all y cyhoedd gael mynediad iddynt.
- Ar lwybrau cyhoeddus, yr awdurdod priffyrdd sydd fel rheol yn atebol am anaf sy'n cael ei achosi gan wyneb diffygiol; ond ar lwybrau caniataol y tirfeddiannwr sy'n atebol fel arfer.
- Dylai perchnogion drefnu neu wirio eu hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus presennol er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol.
- Mae rhagor o ffynonellau gwybodaeth ynghylch cyfrifoldeb perchnogion ar gael o wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Mynediad i gefn gwlad agored o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CGHT)

Mae'r syniad o roi mynediad i'r cyhoedd i gefn gwlad agored – yr hyn a elwir yn 'hawl i grwydro' – wedi cael ei drafod ers canrif a mwy. Roedd Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn caniatáu i awdurdodau lleol ddod i gytundebau â thirfeddianwyr i roi mynediad i gefn gwlad agored. Roedd y Ddeddf hon yn diffinio cefn gwlad agored fel mynydd-dir, gweundir, rhostir, bryniau tonnog â glaswelltir calchaidd ('down'), clogwyni a blaenau traethau ac yn sgîl Deddf Cefn Gwlad 1968 cafodd y diffiniad ei ymestyn i gynnwys glannau afonydd a choetir. Yn ymarferol, ychydig o gytundebau mynediad a wnaed. Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi hawl mynediad cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol ar fynydd-dir, rhostir, gweundir, bryniau tonnog â glaswelltir calchaidd a phob tir comin cofrestredig. . Mae'r Bennod hon yn disgrifio pa hawliau mynediad a ganiateir dan Ran 1 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

## Beth yw tir mynediad CGHT?

Hawliau mynediad cyffredinol
Mae'r Ddeddf yn diffinio tir mynediad CGHT fel:

- tir sy'n cael ei nodi yn gefn gwlad agored (tir y mae'r cyfan neu'r rhan fwyaf ohono yn fynydd-dir, gweundir, rhostir neu fryniau tonnog â glaswelltir calchaidd ) ar fapiau terfynol a gynhyrchir gan Gyfoeth Naturiol Cymru Cymru;
- tir comin cofrestredig sy'n cael ei nodi ar fapiau terfynol a gynhyrchir gan Gyfoeth Naturiol Cymru Cymru;
- tir sydd wedi'i gyflwyno'n dir mynediad CGHT dan Adran 16.

Nid yw glaswelltir sydd wedi ei wella, neu ei wella'n rhannol, wedi'i gynnwys yn y diffiniadau hyn (er y gellir ei gyflwyno o dan Adran 16 y Ddeddf). Roedd ffridd neu goed cae yn cael ei fapio yn unig fel tir agored lle roedd yn bodloni meini prawf cyhoeddedig Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer adnabodd tir agored.

Mae gan y cyhoedd hefyd hawl mynediad i rywfaint o dir yn sgîl mathau eraill o ddeddfwriaeth neu gyfraith gwlad. Gall pobl ddefnyddio hawliau tramwy o fewn terfynau'r hawliau (gweler Priffyrdd Cyhoeddus). Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys rhai tiroedd comin, Deddfau Seneddol lleol neu breifat a rhai cytundebau mynediad (mae'r mathau hyn o fynediad yn cael blaenoriaeth dros yr hawliau a ddarperir yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000). Yn yr un modd, cafwyd mynediad i rywfaint o dir drwy gynlluniau amaeth-amgylchedd. Ni fydd yr hawliau newydd yn effeithio ar yr hawliau a'r cytundebau sy'n bodoli eisoes.
Ceir nifer o amgylchiadau lle mae tir a fyddai'n dir mynediad CGHT, fel arall, yn cael ei eithrio. Nid yw hawliau mynediad yn berthnasol i dir wedi ei eithrio. Yn gryno, mae'r mathau o dir sy'n cael eu heithrio yn dir:

- lle mae "*aredig neu ddrilio wedi tarfu arno*" yn ystod y 12 mis blaenorol;
- sydd wedi ei orchuddio ag adeiladau (neu gwrtilau'r tir hwnnw);
- sydd o fewn 20 metr i gartref neu adeilad parhaol a ddefnyddir i gadw da byw;
- sy'n cael ei ddefnyddio yn barc neu'n ardd;
- sy'n cael ei ddefnyddio i gael mwynau (gan gynnwys cloddio);
- sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer rheilffyrdd a rhai gweithgareddau statudol eraill (megis telegyfathrebu);
- sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyrsiau golff, cyrsiau rasio ceffylau, meysydd awyr neu ar gyfer hyfforddi ceffylau rasio;
- sydd wedi ei orchuddio â chorlannau ar gyfer cadw anifeiliaid dros dro;
- sy'n cael ei reoleiddio gan is-ddeddfau milwrol.

Mewn rhai achosion efallai y bydd tir mynediad yn cael ei gyfrif fel tir wedi'i eithrio os yw'n cael ei ddatblygu, fel y bydd yn cael ei osod yn un o'r categorïau uchod unwaith y bydd wedi ei ddatblygu. Mae disgrifiad mwy manwl ar gael yng ngwefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Nid yw rhai mathau o dir sy'n cwrdd â'r meini prawf i fod yn gefn gwlad agored, neu sy'n dir comin cofrestredig, yn dir mynediad CGHT oherwydd mae hawliau mynediad cyhoeddus statudol eisoes yn bodoli arnynt drwy ddeddfwriaeth arall. Rhestrir y mathau hyn o ddeddfwriaeth yn Adran 15 o Ddeddf 2000 ac maent yn cynnwys:

- Adran 193 Deddf eiddo 1925
- Deddfau lleol neu breifat, neu gynllun a wnaed o dan Rhan 1 o Ddeddf Tiroedd Comin 1899
- Cytundebau mynediad neu orchymyn mynediad a wnaed o dan Rhan V o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949
- Tir a wnaed yn hygyrch i'r cyhoedd o dan Adran 19(1) o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979

Nid yw mapio tir yn dir mynediad CGHT yn golygu na ellir ei ddatblygu. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cyn aredig unrhyw lystyfiant naturiol neu led-naturiol dan y rheoliadau Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd, felly cysylltwch â Llywodraeth Cymru cyn aredig tir o'r fath am y tro cyntaf.

## Pwyntiau allweddol ynglŷn â thir mynediad CGHT:

Mae tir mynediad CGHT yn cynnwys:

- cefn gwlad agored (mynydd-dir, gweundir, rhostir neu fryniau tonnog gyda glaswelltir calchaidd );
- tir comin cofrestredig;
- tir sydd wedi'i gyflwyno dan Adran 16;

nid yw'n cynnwys

- glaswelltir sydd wedi ei wella neu ei led-wella'n amaethyddol
- tir sydd wedi'i eithrio;
- tir y ceir mynediad iddo'n barod drwy ddeddfwriaeth arall (a elwir yn 'dir Adran 15').

## Mapio

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r Map Terfynol ac hefyd sy'n gyfrifol am ei adolygu. Gellir gweld y Map Terfynol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Fel arall gellir gwneud cais ysgrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru i gael copi o'r Map Terfynol (neu ran ohono) ar gyfer ardal benodol. Mae gan unrhyw un sydd â budd cyfreithiol yn y tir yr hawl i gael copi am ddim o'r Map Terfynol ond efallai bydd angen i eraill dalu swm rhesymol. Bydd y Map Terfynol yn cael ei adolygu o leiaf bob 10 mlynedd.

Mae'r Map Terfynol yn dangos yr hawliau mynediad sy'n bodoli dros gefn gwlad agored a thiroedd comin cofrestredig, fel y sefydlwyd hwy dan Ran 1 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Mae ardaloedd tir mynediad CGHT, a nifer o ardaloedd eraill y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt yn cael eu dangos ar fapiau Explorer sydd ar raddfa o 1:25,000 ac maent wedi'u lliwio'n felyn gydag ymyl oren-frown. Dangosir tir coedwigaeth a gyflwynwyd ar gyfer mynediad cyhoeddus dan Adran 16 mewn lliw gwyrdd golau, gyda'r un ymyl oren-frown ag y ceir gyda'r tir mynediad CGHT arall. Nid yw'r mapiau'n dangos tir y ceir mynediad cyhoeddus iddo yn sgîl cynlluniau amaeth-amgylcheddol, oherwydd fe allai'r hawl gael ei cholli pan ddaw'r cynllun i ben. Ni ddangosir darnau o dir nad ydynt yn dir mynediad CGHT sy'n llai na 5 ha ac sy'n rhan o ddarn ehangach o dir mynediad CGHT. Ni ddangosir darnau o dir mynediad CGHT sy'n llai na 5 ha o ran maint chwaith. Bydd y mapiau'n dangos mannau gwybodaeth allweddol. Gellir arddangos gwybodaeth bwysig yn y mannau hyn, gan gynnwys manylion am unrhyw eithriadau neu gyfyngiadau mynediad.

## Hawliau a Chyfrifoldebau - Defnyddwyr hawliau mynediad

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i unrhyw un fod ar dir mynediad CGHT, ar droed, at ddibenion "*hamddena yn yr awyr agored*". Derbynir, gyda hyn y defnydd o gadeiriau olwyn neu goetsys bach. Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn disgwyl bod unrhyw un sy'n mynd ar dir mynediad CGHT yn ymddwyn yn gyfrifol ac na fydd yn ymyrryd â'r gwaith o reoli'r tir. Caniateir mynediad 24 awr y dydd; ni waherddir mynediad yn ystod y nos.
Nid yw'r Ddeddf yn nodi beth yn union y mae gan ddefnyddwyr hawl i'w wneud (ag eithrio "hamddena yn yr awyr agored"), ond mae'n nodi beth y mae'r Ddeddf yn eu rhwystro rhag gwneud. Er enghraifft, nid oes gan gerddwr hawl i ddefnyddio darganfyddydd metel, ond gall pobl gerdded bryniau neu ddringo creigiau fel mater o hawl oherwydd nid yw'r gweithgareddau hyn yn cael eu gwahardd. Gall tirfeddiannwr ganiatáu i rywun ddefnyddio darganfyddydd metel os yw'n dymuno, ond nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i bobl wneud hyn. Efallai bydd rhyddid i gymryd rhan mewn gweithgareddau arbennig wedi datblygu drwy hen arfer dros y blynyddoedd. Nid yw'r Ddeddf yn golygu, o reidrwydd, na all y gweithgareddau hyn barhau (gyda chaniatâd y tirfeddiannwr neu'r deiliad) . Ceir rhestr o'r gweithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn hawliau mynediad CGHT yn y blwch isod. Mae Atodlen 2 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn nodi'r gweithgareddau nad yw'r Ddeddf yn eu caniatáu. Maent fel a ganlyn (yn gryno):

- difrodi neu ymyrryd ag unrhyw wal, ffens, clawdd, camfa neu glwyd, neu beidio â chau clwyd (oni bai ei fod yn amlwg bod y glwyd i fod ar agor);
- gyrru unrhyw gerbyd, boed yn un modur neu beidio (ar wahân i gerbydau a ddefnyddir gan bobl anabl) ;
- marchogaeth ceffyl
- defnyddio cwch neu hwylfwrdd, neu nofio mewn unrhyw ddŵr lle nad oes llanw;
- dod ag unrhyw anifail ar wahân i gi gydag ef. Rhaid i gi fod ar dennyn nad yw'n hirach na 2 fetr rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf bob blwyddyn, ac ar unrhyw adeg pan fydd da byw gerllaw;

- cyflawni unrhyw drosedd;
- cynnau tân neu ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n achosi tân;
- difrodi (yn fwriadol neu'n fyrbwyll) unrhyw fywyd gwyllt, gan gynnwys wyau a nythod, neu blanhigion, llwyni, coed ac ati;
- bwydo da byw;
- hela, pysgota neu saethu;
- defnyddio neu gario darganfyddydd metel;
- rhwystro llif unrhyw ffos neu gwrs dŵr, neu unrhyw beth a fwriadwyd i reoli llif dŵr;
- gosod hysbysiadau neu hysbysebion;
- dychryn, rhwystro neu ymyrryd â gweithgareddau cyfreithiol y rheolwr tir ac eraill ar dir mynediad CGHT neu dir cyfagos;
- cymryd rhan mewn unrhyw gêmau a drefnwyd, gwersylla, barcuta neu baragleidio;
- cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a drefnwyd at ddiben masnachol yn bennaf.

Gall Llywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau yn y dyfodol a fydd yn diwygio'r rhestr hon.

Gallai unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n mynd y tu hwnt i'w hawliau ar dir mynediad CGHT ddod yn dresmaswr a cholli ei hawl i fynd ar dir mynediad CGHT o fewn yr un dirddaliadaeth am 72 awr. Nid yw'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i lwybrau cyhoeddus ar draws yr un dirddaliadaeth. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd rhywun sydd wedi mynd y tu hwnt i'w hawl drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd a nodir yn Atodlen 2, wedi tresmasu neu gyflawni trosedd ac o ganlyniad, fe allai'r gosb fod yn fwy llym.

Os nad oes hawl mynediad mewn grym sy'n galluogi cyhoedd i gyrraedd ardal o dir mynediad CGHT nid oes ganddynt yr hawl i groesi tir arall er mwyn cyrraedd y tir agored hwn. Er mwyn iddynt gael mynediad i'r tir CGHT byddai rhaid creu darpariaeth, un ai drwy orchymyn creu llwybr neu ar hyd llwybr caniataol.

## Hawliau a chyfrifoldebau rhai â 'budd cyfreithiol yn y tir'

Efallai bydd gan sawl person fudd neu fuddiannau cyfreithiol yn yr un darn o dir. Mae'r buddiannau hyn yn cynnwys perchnogaeth rhyddfraint, tenantiaeth, hawliau hela neu hawliau ar fwynau a hawliau tir comin. Mae'r hawliau a'r cyfrifoldebau, mewn perthynas â thir mynediad CGHT yn amrywio fymryn, yn dibynnu ar natur y budd cyfreithiol.
Cynlluniwyd y ddeddfwriaeth i ganiatáu i weithgareddau rheoli tir fynd rhagddynt fel cynt - i ffermwyr barhau i ffermio, pysgotwyr barhau i bysgota ac yn y blaen. Rhoddwyd i'r sawl sydd â budd yn y tir bwerau i reoli mynediad lle bo angen, yn cynnwys cyfygu ar fynediad dan rai amgylchiadau (gweler "Cyfyngiadau"). Fodd bynnag, ar dir mynediad CGHT, mae'n drosedd arddangos arwyddion neu hysbysiadau sy'n cynnwys gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol sy'n debygol o rwystro pobl rhag defnyddio eu hawl mynediad.
Yn wahanol i lwybrau cyhoeddus sy'n dilyn trywydd penodol ac yn mynd ar dir mewn mannau penodol dros gamfeydd neu glwydi, nid yw'r mannau mynediad i dir mynediad CGHT wedi'u pennu'n benodol. Gallai fod yn fuddiol i'r tirfeddiannwr greu pwyntiau mynediad mewn mannau strategol ar ei dir CGHT ac o gwmpas ei derfynau. Gall yr awdurdod mynediad gynorthwyo a bydd yn ystyried llunio cytundebau i ddarparu a chynnal dulliau mynediad. Os yw tirfeddiannwr ac awdurdod mynediad yn ymrwymo i gytundeb, disgwylir iddynt, fel ei gilydd, i fodloni eu hymrwymiadau, ac mae gan yr awdurdod mynediad bwerau (o dan Adrannau 36-39 o'r Ddeddf) i fynnu bod tirfeddiannwr yn creu ffordd o fyned i'r tir agored os yw'n credu bod hyn yn angenrheidiol.

Mae'n rhaid i'r deiliad ddangos dyletswydd gofal i'r rheiny sy'n defnyddio eu hawliau mynediad. Nid yw'r ddyletswydd yn cynnwys peryglon sy'n codi yn sgîl nodweddion naturiol y dirwedd (gan gynnwys llynnoedd, afonydd, pyllau, coed) nac anafiadau sy'n cael eu hachosi wrth groesi wal, ffens neu glawdd (ac eithrio defnyddio camfa neu glwyd yn iawn), oni bai bod y perygl wedi cael ei

greu oherwydd rhywbeth mae'r deiliad wedi ei wneud yn fwriadol neu'n fyrbwyll er mwyn peri risg. Wrth benderfynu i ba raddau y mae'r ddyletswydd yn cael ei bodloni, gall y llysoedd gymryd i ystyriaeth y baich ar y deiliad, yr effaith ar gymeriad y tir, yn cynnwys nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, traddodiadol ac archeolegol, a chyngor statudol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Pan fo mynediad agored ar gael (hynny yw, lle nad yw mynediad wedi cael ei gyfyngu), gall unrhyw un sydd wedi mynd y tu hwnt i'w hawliau (drwy beidio cydyffumffurfio gyda'r cyfyngiadau cyffredinol a ddisgrifir uchod) ddisgwyl yr un ddyletswydd gofal ag unrhyw un arall sy'n cadw o fewn ei hawliau, er y bydd ymddygiad peson a anafwyd bob amser yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth bennu a dosrannu atebolrwydd. Ond, os nad yw'r hawliau mynediad yn bodoli (gan fod y ffermwr, er enghraifft, wedi penderfynu defnyddio un o'i ddiwrnodau caudewisol, yna bydd unrhyw un sydd ar y tir nad yw'n ymwelydd neu sydd heb gael caniatâd y tirfeddiannwr, yn dresmaswr ac fe fydd ganddo'r hawl i ddyletswydd gofal i dresmaswyr, fel y disgrifir yn Neddf Cyfrifoldeb Meddianwyr 1984.

## Y pwerau sydd ar gael i awdurdodau mynediad

Ni wnaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 greu llawer o ddyletswyddau newydd i awdurdodau mynediad o ran tir mynediad CGHT, ond fe roddodd rhai pwerau newydd pwysig iddynt. Yr awdurdod sydd yn barnu sut i weithredu'r pwerau newydd hyn.
Mae'r pwerau allweddol newydd sydd ganddynt dros dir mynediad CGHT fel a ganlyn:

- cyflwyno is-ddeddfau i warchod trefn, atal difrod ac amddiffyn hawliau mynediad;
- penodi wardeiniaid i gynorthwyo i reoli tir mynediad CGHT;
- codi a chynnal arwyddion a hysbysiadau i roi gwybod i'r cyhoedd am ffiniau tir mynediad CGHT ac unrhyw gyfyngiadau neu eithriadau sydd mewn grym. Mae dwy sumbol mynediad agored yn dangos terfynau tir myneiad CGHT:



- llunio cytundebau i ddarparu mannau mynediad, megis gatiau a chamfeydd, i dir mynediad CGHT.

## Swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru Cymru

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod llawer o gyfrifoldebau ar Gyfoeth Naturiol Cymru Cymru. O ganlyniad, mae gan y Cyngor swyddogaeth ganolog wrth fapio a rheoli tir mynediad CGHT yng Nghymru, fel y 'corff cefn gwlad priodol'. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru Cymru ddwy rôl arall dan y Ddeddf – mewn perthynas â mynediad agored (lle mae'n 'awdurdod perthnasol') ac mewn perthynas â chadwraeth natur (lle mae'n 'gorff ymgynghori perthnasol').

Prif gyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru Cymru yw:

- mapio'r ardaloedd o gefn gwlad agored a thiroedd comin cofrestredig ac adolygu'r mapiau Terfynol o leiaf bob 10 mlynedd;
- darparu arweiniad i eraill (megis beth sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad cyfrifol i ddefnyddwyr );
- rhoi arweiniad i awdurdodau perthnasol (fel sy'n ofynnol iddo wneud dan Adran 33 o Ddeddf CGHT) ar sut i asesu'r angen am gyfyngiadau os gwneir cais (e.e. at ddibenion cadwraeth natur a gwarchod treftadaeth – yn seiliedig, yn achos yr olaf, ar gyngor gan Cadw: Henebion Cymru – neu i reoli perygl tân) , a hefyd, o dan rai amgylchiadau, i gyflwyno'r eithriadau a'r cyfyngiadau ei hun;

- rhannu gwybodaeth ynghylch y cyfyngiadau sydd mewn grym.

## Pwy yw'r awdurdodau perthnasol?

Yr awdurdodau perthnasol yng Nghymru yw:

- yr awdurdodau parciau cenedlaethol (ar gyfer tir mynediad CGHT o fewn y parciau cenedlaethol); a
- Cyfoeth Naturiol Cymru (ar gyfer tir mynediad CGHT sydd wedi'i orchuddio â choetir neu goedwig ag ar gyfer tir mynediad CGHT ym mhob man arall).

Mae gan yr awdurdodau perthnasol swyddogaeth ganolog wrth ymdrin â chyfyngiadau ac eithriadau .

## Rheoli tir mynediad CGHT

Mae gan lawer o dir mynediad CGHT draddodiad hir o fynediad cyhoeddus ac mae'n bosibl na fydd angen unrhyw newid yn y modd y mae'n cael ei reoli.  Mewn nifer o ardaloedd lle mae mynediad cyhoeddus yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf, mae'n bosibl na fydd nifer yr ymwelwyr yn ddigon i olygu bod angen unrhyw fesurau rheoli arbennig.  Ond, lle bo angen rhyw fath o newid i'r dulliau rheoli, mae gan ffermwyr a rheolwyr tir ddigon o ddewisiadau.  Mae nifer yn anffurfiol eu natur a gellir eu cymhwyso fel y gwêl y deiliad yn ddoeth heb unrhyw berygl o rwystro mynediad cyhoeddus.  Mae'n werth ystyried pa un o'r rhain fyddai'n cyfyngu leiaf ar fynediad cyhoeddus cyn chwilio am ddulliau mwy ffurfiol megis cyfyngiad. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru Cymru yn annog ffermwyr a rheolwyr tir bob amser i ddewis yr opsiwn lleiaf cyfyngol ar fynediad cyhoeddus.

Mae pob fferm a darn o dir yn wahanol ac mae angen cynllunio'r dull rheoli ar gyfer amgylchiadau penodol.  Ond, ceir rhai ffyrdd safonol o ystyried mynediad cyhoeddus a sut mae'n cael ei reoli er mwyn lleihau'r effeithiau ar ddulliau rheoli tir.  Un ffordd o'r fath yw mabwysiadu dull strategol a rhagweithiol o reoli mynediad sydd wedi'i integreiddio ag ystyriaethau rheoli eraill.

## Dull strategol

Mae llawer i'w ddweud am reoli mynediad mewn modd strategol (h.y. dull 'rhagweithiol'), yn hytrach na chynnig atebion tameidiog i ymdrin â materion penodol wrth iddynt godi (h.y. dull 'ymladd tân').  Nod dull strategol ac integredig fel hwn yw rheoli mynediad yn gadarnhaol yn hytrach na 'gadael iddo ddigwydd' yn unig.
Mae rhai rheolwyr tir yn ymgynghori â'u cymdogion, ymwelwyr rheolaidd a grwpiau defnyddwyr i weld i ble y maent am fynd a beth y maent am ei wneud.  Mae hyn yn caniatáu i'r rheolwr tir drafod ffyrdd o gysoni anghenion a dyheadau'r defnyddwyr â rhai'r ffermwr neu'r coedwigwr.  Hwyrach y gall yr awdurdod mynediad gynorthwyo i hwyluso a chefnogi'r broses hon.  Felly, gallai rheolwr tir gydlynu parcio ceir, gosod clwydi neu gamfeydd a gosod arwyddion a chyfeirbwyntiau mewn modd a fydd yn cymell pobl i fynd i ardaloedd lle na fyddant yn amharu gormod ar y tir.  Yn y modd hwn, gellir osgoi nifer o broblemau posibl o'r dechrau.
Mae materion strategol eraill y gallai fod angen eu hystyried yn cynnwys:

- rheoli pori – ble yw'r lle gorau i dda gael lloi neu i ddefaid gael ŵyn?
- a oes angen i gyflogwr/pobl hunangyflogedig adolygu eu hasesiad risg?
- pwy all helpu datblygu gwybodaeth i addysgu ymwelwyr?
- a fydd cynifer yn defnyddio'u hawliau mynediad fel bod angen wardeiniaid ar adegau prysur (gall yr awdurdod lleol gynnig help dryw ddarparu wardeiniaid)?

## Dulliau rheoli safonol

Gwelwyd bod nifer o ddulliau sy'n cael eu defnyddio'n aml yn gweithio'n dda.  Dyma'r dulliau mwyaf poblogaidd:

**Cynllunio Gwaith:** cynllunio bod gweithredoedd sy'n anodd eu cyflawni pan fydd y cyhoedd o gwmpas yn digwydd ar adeg ac mewn man a fydd yn golygu'r ymyrraeth leiaf bosibl. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu torri ychydig goed, trefnwch eich bod yn gwneud hynny ganol wythnos a gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o bobl wrth law er mwyn gallu gwneud y dasg yn gyflym.
**Arwyddion a gwybodaeth:** Mae arwyddion yn hanfodol er mwyn trosglwyddo gwybodaeth a negeseuon pwysig i'r cyhoedd. Dylent gael eu lleoli'n ofalus fel bod y neges yn cael ei gosod yn y man mwyaf effeithiol, er rhaid cofio bod yna leiafrif sy'n dewis anwybyddu cyngor bob amser. Dylid gofalu cyfleu'r wybodaeth mewn modd cadarnhaol (e.e. defnyddio 'A fyddech mor garedig â ….' yn hytrach na 'Peidiwch â …'). Gall darluniau neu ddiagramau fod yn fwy effeithiol na geiriau mewn rhai sefyllfaoedd, a gallant gynorthwyo i gyfleu 'neges' i'r rheiny sy'n osgoi darllen y testun, neu'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd darllen testun e.e. ymwelwyr â nam ar eu golwg. Mae'n bwysig cofio na ddylai arwyddion gynnwys unrhyw wybodaeth camarweiniol neu anghywir a allai olygu na fydd pobl yn defnyddio'u hawliau mynediad)
**Creu cylchfaoedd gwahanol a Llywio pobl i fannau arbennig:** Mae tir o fewn daliad yn amrywio o ran ei allu i wrthsefyll defnydd gan ymwelwyr a'r peryglon mae'n eu cyflwyno i ymwelwyr. Er enghraifft, gallai ardal sensitif gynnwys nodweddion cadwraeth pwysig, neu brif gaeau ŵyna, a gallai ardal mwy gwydn fod yn ardal eang o ucheldir lle ceir ychydig o ddefaid yn pori neu galchfaen sydd yn draenio'n rhwydd. Ffactor allweddol arall wrth sicrhau llwyddiant y dechneg hon yw bod y rhan fwyaf o bobl yn hapusach ac yn fwy cyfforddus yn cerdded ar hyd llwybr clir. Felly, drwy reoli llwybrau a llystyfiant, gallwch greu llwybr clir i bobl ei ddilyn, a gyda chynllunio gofalus a meddwl ymlaen, gellir gosod y llwybrau hyn ar hyd trywydd y mae'r rhan fwyaf o bobl am ei ddilyn (e.e. i gopa) gan osgoi ardaloedd peryglus neu sensitif.
**Codi ymwybyddiaeth:** Mae'n debyg y bydd ymwelwyr sydd ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o reoli tir a rheoli dŵr yn cael llai o effaith na'r rhai â llai o ymwybyddiaeth. Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ddull o 'rwystro yn hytrach na gwella'. Gellir defnyddio sawl ffordd, gan gynnwys siarad â phobl, dosbarthu taflenni sy'n ymwneud â safleoedd penodol, rhoi manylion priodol mewn canllawiau cerdded a gweithio gydag awdurdodau lleol.
**Cymryd camau ar y Tir:** Efallai bod modd dylanwadu ar ymddygiad pob drwy gymryd camau priodol ac ymarferol ar y tir. Er enghraifft, mae mannau parcio yn dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn myned i dir, ac efallai y bydd hi'n bosib i dirfeddianwyr a deiliaid ddylanwadu ar ble mae pobl yn dewis parcio.. Bydd clwydi neu gamfeydd sydd wedi eu lleoli'n dda neu arwyddion/cyfeirbwyntiau yn eu cymell i ddilynllwybrau penodol. Os ydych yn gweithio ar y llwybrau hyn, neu'n agos atynt, ceisiwch ennyn cydweithrediad pobl er mwyn osgoi anawsterau. . Tra bydd pobl, ar y cyfan, yn fodlon cydymffurfio gyda cheisiadau o'r fath mae ganddynt yr hawl i fynd i bob rhan o dir mynediad CGHT oni bai eu bod yn cael eu cyfyngu rhag gwneud hynny. Felly, byddwch yn ofalus a dewisiol iawn wrth ofyn i bobl ymddwyn mewn ffordd arbennig, neu gofynnwch i'r awdurdod perthnasol gyfyngu mynediad at ddibenion rheolaeth tir.

## Gwaharddiadau a chyfyngiadau

Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn caniatáu cyfyngu mynediad i dir mynediad CGHT. Gall cyfyngiadau fodoli mewn ffurfiau gwahanol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- gwahardd cŵn;
- cadw pobl at lwybrau llinellol penodol;
- mynnu bod pobl yn mynd at y llwybrau o fannau penodol yn unig;
- cyflwyno cyfyngiadau penodol ar yr hyn y gellir ei wneud ar y tir; a
- gwahardd mynediad yn gyfan gwbl.

Er hwylustod, defnyddir y gair "cyfyngiad" yma i gwmpasu cyfyngiadau a gwaharddiadau o bob math. Gellir cyflwyno cyfyngiadau mewn tair ffordd wahanol.

- ar ddisgresiwn y tirfeddiannwr neu'r tenant;
- dan gyfarwyddyd yr awdurdod perthnasol ar gais rhywun â budd cyfreithiol yn y tir;
- dan gyfarwyddyd yr awdurdod perthnasol heb i gais gael ei wneud.

Disgrifir y mathau o gyfyngiadau isod. Dim ond i dir mynediad CGHT y mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol. Nid yw'r un ohonynt yn effeithio ar lwybrau cyhoeddus nac ar dir sy'n agored i'r cyhoedd dan offerynnau cyfreithiol eraill (h.y. tir Adran 15).

Noder bod y rheolau perthnasol o fewn y Mesur Statudol Cymreig 2003:142 – Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu ar Fynediad) 2003.

## Cyfyngiadau Disgresiwn

Mae Adran 22 y Ddeddf yn rhoi hawl i'r tirfeddiannwr (neu'r tenant) gyfyngu mynediad i'w dir am hyd at **28 diwrnod** ym mhob blwyddyn galendr. Gall y tirfeddiannwr neu'r tenant benderfynu cyfyngu mynediad i wahanol ardaloedd o'i fferm ar adegau gwahanol, ond ni all gyfyngu mynediad i ddarn penodol o dir am fwy na 28 diwrnod oni bai ei fod wedi gwneud cais am gyfyngiad ychwanegol (gweler isod). Os oes nifer o bobl dan sylw, a phob un â hawl cyfreithiol i ddefnyddio cyfyngiadau dewisol, dylent gytuno ymysg ei gilydd pa gyfyngiadau ddylai gael eu defnyddio, a phryd, fel bod y person â hawl yn gallu cyflwyno rhybudd priodol.
Nid oes angen i'r tirfeddiannwr neu'r tenant gyfiawnhau'r penderfyniad i gyfyngu mynediad i'w dir yn ystod y diwrnodau dewisol hyn. Ei benderfyniad ef ydyw'n gyfan gwbl. Gall cyfyngiadau fod ar unrhyw ffurf (gan gynnwys gwaharddiad llawn) ac at unrhyw ddiben. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus os gallai fod yna resymau dros geisio cyfyngiadau ychwanegol. Gall yr awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am ganiatáu cyfyngiadau ychwanegol gymryd i ystyriaeth sut y defnyddiwyd y cyfyngiadau 28 diwrnod dewisol wrth benderfynu a ydyw am gytuno i'r cais am gyfyngiadau pellach. Ond mae'n rhaid i'r awdurdod perthnasol roi cyfarwyddyd i gyfyngu mynediad os yw'n ystyried bod y cyfyngiad yn angenrheidiol. Noder bod cyfyngiad am ran o ddiwrnod yn cyfrif fel cyfyngiad diwrnod cyfan.

Mae yna rai amodau sy'n rheoli'r adegau y gellir defnyddio'r 28 diwrnod (fel y disgrifir yn Adran 22(6) a (7) o'r Ddeddf). Gellir defnyddio'r diwrnodau dewisol ar unrhyw adeg ag eithrio:

- ar Wyliau Banc, Dydd Nadolig neu Ddydd Gwener y Groglith;
- ar fwy na phedwar diwrnod penwythnos mewn unrhyw un flwyddyn galendr;
- ar unrhyw ddydd Sadwrn rhwng 1 Mehefin a 11 Awst; nac
- ar unrhyw ddydd Sul rhwng 1 Mehefin a 30 Medi.

Rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol am y bwriad i gyfyngu mynediad

- Er mwyn rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol am y bwriad i ddefnyddio cyfyngiad dewisol, dylid cyflwyno'r wybodaeth ganlynol i'r awdurdod hwnnw:
- enw a chyfeiriad post yr un sydd â hawl i roi rhybudd ynghylch cyfyngiadau;
- natur ei fudd yn y tir (sy'n rhoi hawl iddo ddefnyddio'r diwrnodau cau dewisol);
- disgrifiad digonol i sicrhau bod modd adnabod lleoliad y tir dan sylw a'i hyd a'i led (e.e. map neu gynllun). Gellir defnyddio hwn i gyfeirio ato yn y dyfodol, pan fydd angen rhoi gwybod am fwriad i ddefnyddio cyfyngiad dewisol dros y ffôn;
- y diwrnodau y mae'r cyfyngiad mewn grym, a'r amserau y mae'r cyfyngiad yn weithredol (os yw'n llai na diwrnod cyfan);
- diben y cyfyngiad;
- natur y cyfyngiad (e.e. rhoi cŵn ar dennyn). Os yw'r cyfyngiad yn gofyn i bobl gadw at lwybr llinellol, yna dylid amgáu map yn nodi'r llwybr.

Dylid cyflwyno'r tair eitem gyntaf yn ysgrifenedig. Ond, unwaith y mae'r manylion hyn yn nwylo'r awdurdod perthnasol, gellir cyflwyno'r manylion ychwanegol yn ysgrifenedig neu dros y ffôn. Os na chyflwynir y manylion ymlaen llaw, bydd angen rhoi gwybod am gyfyngiadau yn ysgrifenedig. Unwaith y bydd rhybudd wedi dod i law, bydd yr awdurdod perthnasol yn archwilio dilysrwydd y rhybudd, yn cadarnhau gyda'r sawl a gyflwynodd y rhybudd ei fod wedi ei dderbyn ac yn cofnodi'r defnydd o gyfyngiad dewisol. Hwyrach y bydd angen cael mwy o wybodaeth neu gadarnhau manylion gyda'r sawl a gyflwynodd y rhybudd os oes unrhyw anghysondebau wedi dod i'r amlwg.

Gellir tynnu rhybudd yn ôl lle rhoddwyd 5 diwrnod gwaith o rybudd, a lle bod y cais i dynnu'r rhybudd yn ôl wedi ei dderbyn dim llai na 2 ddiwrnod gwaith cyn y bwriadwyd i'r cyfyngiad ddod i rym. Ond, dim ond 5 o weithiau y gellir tynnu cais yn ôl ym mhob blwyddyn galendr.

## Gallu i wahardd pobl â chŵn

Yn ychwanegol at y 28 diwrnod hyn o gyfyngiadau dewisol y gellir eu defnyddio am unrhyw reswm, mae'r Ddeddf yn caniatáu i dirfeddiannwr neu denant gymryd camau pellach mewn perthynas â chŵn (ond nid cŵn tywys hyfforddedig y deillion neu'r byddar):
Mae Adran 23 (1) yn rhoi pŵer i'r tirfeddiannwr (ond nid tenantiaid) wahardd cŵn o bob gweundir a ddefnyddir i fagu a saethu grugieir. Gall y gwaharddiad bara am hyd at 5 mlynedd;
Mae Adran 23 (2) yn galluogi perchennog-breswyliwr neu denant (ond nid perchennog tir o dan denantiaeth) i wahardd cŵn o gaeau neu o ddarnau o dir a amgaewyd ar gyfer ŵyna. Yn y cyd-destun hwn, ni all 'cae neu ddarn amgaeëdig' fod yn fwy na 15 ha. Dim ond am un cyfnod ym mhob blwyddyn galendr y gellir gwahardd cŵn, ac ni all y cyfnod fod yn fwy na chwe wythnos.
Nid yw'r un o'r hawliau hyn yn ymestyn i ganiatáu i'r tirfeddiannwr neu'r tenant fynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn (mae hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith mewn ardal lle ceir da byw beth bynnag). Os mai hwn yw'r dull a ffafrir, gall wneud cais am gyfyngiadau dan gyfarwyddyd yr awdurdod perthnasol. Ceir nifer o amgylchiadau lle gellir defnyddio'r math yma o gyfyngiad (gweler isod).

Mae'r broses ar gyfer rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol am y cyfyngiadau hyn yn debyg i'r hyn a geir ar gyfer y lwfans 28 diwrnod. Ond, os oes gan yr awdurdod perthnasol unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'r tir yn gymwys dan Adran 23, bydd yn ceisio gwybodaeth bellach gan y sawl sy'n cyflwyno'r rhybudd. Bydd yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau'r cyfyngiad unwaith y bydd yn fodlon bod y rhybudd yn ddilys. Gellir tynnu'r cyfyngiad yn ôl – ar unrhyw adeg yn achos gweunydd grugieir, a dim hwyrach na 2 ddiwrnod gwaith cyn y bwriadwyd i'r cyfyngiad ddod i rym yn achos darnau tir a amgaewyd ar gyfer ŵyna. Bydd yr awdurdod perthnasol yn cadw cofnod o'r defnydd o'r cyfyngiadau hyn a'r achlysuron y cafodd rhybuddion eu tynnu'n ôl.
Er nad yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i lwybrau cyhoeddus ar draws tir mynediad CGHT bydd nifer o berchnogion cŵn yn fodlon cadw eu cŵn ar dennyn os gofynnir iddynt yn gwrtais ac os eglurir y rheswm pam iddynt.

## Dan gyfarwyddyd yr awdurdod perthnasol – ar gais rhywun â budd cyfreithiol yn y tir

Yn ychwanegol at y cyfyngiadau dewisol, gall unrhyw un â budd cyfreithiol yn y tir wneud cais i'r awdurdod perthnasol am gyfyngiadau ychwanegol. Yn wahanol i'r cyfyngiadau disgresiwn neu ddewisol, mae'n rhaid i'r awdurdod perthnasol gymeradwyo'r math hwn o gyfyngiad. Bydd y cyfyngiadau ond yn cael eu caniatáu pan fo'r awdurdod perthnasol o'r farn bod eu hangen at y dibenion penodol a nodir yn y Ddeddf. Caniateir cyfyngiadau pan fydd y ceisydd yn dangos eu bod yn angenrheidiol:

- am resymau'n ymwneud â rheoli tir (Adran 24);
- i osgoi'r perygl o dân pan fydd y tywydd yn eithriadol (Adran 25(1)(a));
- i osgoi perygl i'r cyhoedd (Adran 25(1)(b)).
-

Er mwyn cael cyfarwyddyd gan yr awdurdod perthnasol at y dibenion hyn, mae angen cyflwyno cais. Yn ogystal â gwybodaeth am yr ymgeisydd, y cyfyngiadau y gwneir cais amdanynt, i ba ardal y maent yn berthnasol a thros ba gyfnod, bydd angen i'r ymgeisydd roi digon o wybodaeth i ganiatáu i'r awdurdod perthnasol benderfynu a ydynt yn angenrheidiol ai peidio. Bydd canllawiau ar gael gan yr awdurdodau perthnasol am y meini prawf y byddant yn eu defnyddio wrth benderfynu – **Sut i ddefnyddio cyfyngiadau** ar gael ar wefan CNC.

Yn achos ceisiadau am gyfyngiadau i osgoi perygl i'r cyhoedd, hwyrach y bydd yr awdurdod perthnasol am weld rhyw fath o esboniad ynghylch pam bod angen y cyfyngiad, ac efallai y bydd yn gofyn am gael gweld eich asesiad risg. Mae gan bob cyflogwr a pherson hunangyflogedig ddyletswyddau - dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio 1974, a'r rheoliadau sydd ynghlwm wrthi, - er enghraifft i osgoi, cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl, rhoi'r cyhoedd mewn perygl drwy ei weithgareddau gwaith. Yn achos rhai mathau o weithgareddau ceir mwy o ofynion diogelwch penodol dan ddeddfwriaeth arall.

Gallai unrhyw gyfarwyddyd sy'n cael ei roi gan awdurdod perthnasol mewn ymateb i gais helpu sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau iechyd a diogelwch ehangach, ond nid yw hwn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu a oes angen cyfarwyddyd ai peidio. Wrth ystyried cais sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd, mae'n rhaid i'r awdurdod bwyso a mesur a yw cyfyngu hawliau mynediad y cyhoedd i'r graddau a awgrymir gan y ceisydd yn angenrheidiol mewn gwirionedd er mwyn sicrhau nad yw aelodau'r cyhoedd yn cael eu peryglu gan yr hyn a fydd yn digwydd ar y tir. Wrth ddod i benderfyniad, gall yr awdurdod perthnasol gymryd i ystyriaeth y modd y defnyddiwyd y cyfyngiadau dewisol.

Mae'r broses a ddefnyddir yn debyg i'r un a ddefnyddir wrth roi gwybod am fwriad i ddefnyddio cyfyngiadau dewisol. Fodd bynnag, gall unrhyw un â budd cyfreithiol gyflwyno cais, a gall yr awdurdod perthnasol wrthod cais. Gall unrhyw un sy'n anghytuno â'r penderfyniad apelio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, os ydynt yn dymuno, ond dim ond pan fyddant o'r farn nad yw'r awdurdod perthnasol wedi gweithredu yn unol â'r cais a wnaed. Mae'n rhaid cyflwyno apêl ysgrifenedig cyn pen 6 wythnos ar ôl i'r cais gael ei wrthod. Wrth i'r apêl fynd yn ei blaen, bydd yr un trefniadau mynediad a oedd yn bodoli cyn i'r apêl gael ei chyflwyno yn berthnasol i'r tir mynediad CGHT dan sylw.

Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno am gyfyngiadau a fydd yn para mwy na 6 mis, bydd yn rhaid i'r awdurdod perthnasol ymgynghori ag eraill, gan gynnwys y Fforwm Mynediad Lleol, ac ystyried eu cyngor cyn penderfynu ar y cais. Os yw'r cyfyngiad hirdymor yn effeithio ar dir yng Nghymru a Lloegr, bydd angen cynnal dau ymgynghoriad.

Pan fydd cais wedi ei dderbyn, bydd yr awdurdod perthnasol yn cyflwyno cyfarwyddyd ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd.

## Dan gyfarwyddyd yr awdurdod perthnasol – heb fod cais yn cael ei wneud

Mewn rhai amgylchiadau, gall awdurdod perthnasol gyflwyno cyfyngiad ar dir mynediad CGHT heb i unrhyw un â budd cyfreithiol yn y tir gyflwyno cais. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys:

- pan fo'r awdurdod perthnasol o'r farn bod "unrhyw amodau eithriadol yn y tywydd neu unrhyw newid eithriadol yng nghyflwr y tir" yn golygu bod angen cyflwyno cyfyngiadau i leihau'r perygl o dân (dan Adran 25 (1)(a) a 25 (3)) ;
- pan fo'r awdurdod perthnasol o'r farn bod angen cyflwyno cyfyngiadau er lles iechyd a diogelwch y cyhoedd (dan Adran 25 (1)(b) a 25(3));
- pan fo'r awdurdod perthnasol o'r farn bod angen cyflwyno cyfyngiadau am resymau'n ymwneud â chadwraeth natur neu dreftadaeth (dan Adran 26).

Gall y rheiny â budd cyfreithiol hefyd wneud cais am gyfyngiadau am y ddwy set gyntaf o amgylchiadau (tân a diogelwch) ond nid ar gyfer cadwraeth natur a threftadaeth . Os bydd awdurdod yn creu cyfarwyddyd er mwyn osgoi perygl i'r cyhoedd heb fod rhywun gyda budd yn y tir wedi gwneud cais i hyn ddigwydd, bydd yn gwneud hynny er mwyn rheoli peryglon i'r cyhoedd, ac nid i leihau cyfrifoldeb ac atebolrwydd deiliaid. Lle bydd awdurdod yn cymryd camau (e.e. drwy godi arwyddion i roi gwybodaeth ynghylch cyfyngiad) bydd yn gwneud hynny, unwaith eto, er mwyn pwysleisio'r cyfyngiad y mae'n credu sy'n angenrheidiol i osgoi'r risg. Ond cyfrifoldeb y deiliaid fydd hi, o hyd, i gyflawni ei ddyletswydd gofal, er enghraifft drwy roi rhybudd am natur y peryglon ar y tir. Unwaith eto, bydd rhaid cyfeirio unrhyw gyfyngiad sydd i bara mwy a 6 mis at y Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer yr ardal dan sylw a rhaid i'r awdurdod perthnasol dalu sylw i gyngor y fforwm cyn dod i benderfyniad.

Os bydd angen cyfyngiadau at ddiben amddiffyn neu ddiogelwch cenedlaethol gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn neu'r Ysgrifennydd Cartref greu cyfarwyddyd dan Adran 28. Nid yw Fforymau Mynediad Lleol yn gwneud sylwadau ar gyfyngiadau hirdymor yn y achosion hyn ond rhaid i'r cyfyngiadau gael eu hadolygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol (Amgylchedd) yn ddim hwyrach na 5 mlynedd i'r dyddiad y daeth y cyfyngiad i rym. Mae Adran 31 Deddf 2000 yn rhoi'r grym i Lywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau a fydd yn caniatáu i'r awdurdod perthnasol osod cyfyngiadau ar fynediad cyhoeddus dros dir mynediad CGHT os bydd argyfwng, at ddiben rheoli tir neu i osgoi perygl i'r cyhoedd, i atal tân, neu ar gyfer gwarchod natur a threftadaeth.

## Rhoi gwybod i'r cyhoedd am gyfyngiadau

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig arweiniad ar sut i reoli cyfyngiadau. Yr awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth am gyfyngiadau ar gael i'r cyhoedd a'r awdurdodau mynediad. Mae angen iddo:

- gyhoeddi'r wybodaeth ar wefan. Mae map ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynwys y wybdoaeth ddiweddaraf ynglŷn a lle gall pobl fynd a pha gyfyngiadau sydd mewn grym mewn gwahanol fannau.
- rhoi gwybod i Gyfoeth Naturiol Cymru (os nad Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod perthnasol)cyn gynted ag sy'n bosibl am unrhyw gyfarwyddiadau a wnaed fel bod y CNC hefyd yn gallu cyhoeddi gwybodaeth berthnasol ar ei wefan;
- rhoi gwybod i'r awdurdodau mynediad am fathau penodol o gyfyngiadau.

Bydd gwybodaeth ynghylch cyfyngiadau hefyd ar gael drwy awdurdodau eraill, megis awdurdodau mynediad ac awdurdodau perthnasol.

Yn achos cyfyngiadau a gyflwynir ar fyr rybudd, mae'n bosibl na fydd yn ymarferol i'r awdurdod perthnasol roi'r wybodaeth ar wefan mewn pryd. Bydd angen i ffermwyr a thirfeddianwyr roi'r wybodaeth ar y tir er mwyn i bobl gael gwybod bod cyfyngiadau mewn grym ac efallai bydd help ar gael gan wasanaethau wardena'r awdurdod mynediad.
Pan fydd cyfyngiadau mewn grym am gyfnod hwy (h.y. yn para 6 mis neu fwy), mae gan yr awdurdod perthnasol ddyletswydd i roi gwybodaeth amdanynt ar y tir. Yn achos y rhan fwyaf o gyfyngiadau eraill, y person neu'r sefydliad sydd wedi gofyn am y cyfyngiad sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ddarpar ymwelwyr. Pan gaiff cyfyngiadau eu cyflwyno ar gais Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig am resymau'n ymwneud â chadwraeth natur, y CNC fydd yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth briodol am gyfyngiadau. Yn yr un modd, os oes angen cyfyngiadau at ddibenion hyfforddiant milwrol, y Weinyddiaeth Amddiffyn fydd yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth berthnasol i ymwelwyr.

Er mwyn rhoi gwybodaeth i ddarpar ymwelwyr ar y tir, rhaid cael gwybodaeth ddigonol am natur, parhad a hyd a lled unrhyw gyfyngiadau sydd mewn grym. Gellir gwneud hyn ar lafar neu, yn fwy tebygol, drwy godi arwyddion. Nid oes unrhyw un am weld toreth o arwyddion yng nghefn gwlad a derbynnir, felly, y byddai'n rhesymol codi arwyddion mewn mannau allweddol yn unig. Nodir y mannau allweddol lle dangosir y wybodaeth hon ar fapiau Ordnans Explorer 1:25,000.

## Ymestyn hawliau mynediad – cyflwyno tir dan Adran 16

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn galluogi tirfeddianwyr a deiliaid prydles â 90 mlynedd neu fwy o'r brydles ar ôl i gyflwyno'r tir ar gyfer mynediad cyhoeddus. Bydd cyflwyniad gan y rhydd-ddeiliad yn parhau mewn grym "am byth'; ond bydd cyflwyniad ganddeiliad prydles yn gorffen pan fydd y brydles yn dod i ben. Mae cyflwyno tir nid yn unig yn sicrhau hawl mynediad cyhoeddus hir-dymor, ond mae hefyd fel arfer yn darparu lleihad yn nyletswydd gofal y deiliad.

Lle bo prydles neu rywun arall â budd cyfreithiol o fath gwahanol (e.e. tenant amaethyddol), yna bydd unrhyw gyflwyniad yn cael ei wneud ar y cyd. Mae tir sy'n cael ei gyflwyno yn dod yn dir

mynediad CGHT ac mae'r un rheolau a rheoliadau yn berthnasol iddo, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd y tir yn cael ei eithrio.

Argymhellir bod tirfeddianwyr a deiliaid prydles sy'n ystyried cyflwyno tir ar gyfer mynediad yn trafod eu cynlluniau'n gynnar â Chyfoeth Naturiol Cymru ag y Llywodraeth Cymru fel y bo'n briodol. Bydd y cyrff hyn yn rhoi cyngor ynglŷn â'r ffordd orau o gyflwyno mynediad cyhoeddus Er mwyn cyflwyno tir, bydd angen cael offeryn cyflwyno. Yn unol â rheoliadau, mae'n rhaid i offeryn cyflwyno:

- fod yn ysgrifenedig (Cymraeg neu Saesneg);
- egluro ei fod wedi'i wneud o dan Adran 16(1) Deddf 2000;
- dynodi'r tir i'w gyflwyno ar ffurf cynllun neu fap:
- sydd ar raddfa heb fod yn llai nag 1:10,000;
- sy'n nodi ffiniau'r tir sydd i'w gyflwyno; ac sy'n
- defnyddio grid adnabyddus;
- rhoi manylion y rhai sy'n cyflwyno'r tir (enw, cyfeiriad, cod post) ac unrhyw un arall sy'n rhoi caniatâd;
- cynnwys datganiad am hawl y cyflwynwyr i wneud y cyflwyniad ac nad oes angen i unrhyw un arall, hyd y gwyddant, roi caniatâd;
- dangos a oes angen diddymu neu lacio'r cyfyngiadau cyffredinol sy'n berthnasol i dir mynediad CGHT (gan roi manylion y cyfyngiadau – beth, pryd, ble);
- cynnwys datganiad ynghylch awdurdod i lofnodi a chadarnhau y bydd yna gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'n rhaid anfon yr offeryn cyflwyno drafft i'r awdurdod mynediad (neu awdurdodau os yw'r tir sy'n cael ei gyflwyno mewn mwy nag un awdurdod), Cyfoeth Naturiol Cymru, y Llywodraeth Cymru ac unrhyw forgeisai sy'n bodoli adeg gwneud cyflwyniad. Dylai'r drafft gael ei gyflwyno tri mis cyn i'r cyflwyniad ddod i rym.
Ceir mynediad i dir sydd wedi'i gyflwyno pan fydd yr offeryn cyflwyno yn weithredol, sef 6 mis ar ôl y dyddiad y cafodd ei lofnodi. Ond mae'n rhaid ei gyflwyno i'r awdurdod (neu awdurdodau) mynediad, cyn pen 1 mis ar ôl ei lofnodi. Mae'n rhaid i'r un sy'n gwneud y cyflwyniad anfon 5 copi o'r offeryn cyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru, y Llywodraeth Cymru ac unrhyw forgeisai.

## Diddymu neu lacio cyfyngiadau cyffredinol ar dir mynediad CGHT nad yw wedi'i gyflwyno

Fel y nodwyd eisoes, mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod rhywfaint o gyfyngiadau cyffredinol ar yr hawliau sydd gan bobl sy'n defnyddio tir mynediad CGHT. Gall tirfeddiannwr neu ddeiliad lacio rhai o'r cyfyngiadau cyffredinol ar eu tir mynediad CGHT, un ai am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol.
Gellir diwygio amodau offeryn cyflwyno i lacio neu ddiddymu'r cyfygniadau cyffredinol sy'n perthyn i dir mynediad CGHT.Rhaid dilyn trefn debyg i'r un a ddefnyddiwyd gyda'r cyflwyniad gwreiddiol.

## Pwyntiau allweddol:

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru Cymru wedi mapio'r holl gefn gwlad agored a thiroedd comin cofrestredig yng Nghymru yn derfynol, ond bydd y mapiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Mae mapiau sy'n dangos tir y gall y cyhoedd gael mynediad iddo, yn cynnwys tir mynediad CGHT, i'w gweld ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru Cymru.
- Bydd gan y cyhoedd hawl mynediad, ar droed, i dir mynediad CGHT at ddiben hamddena anffurfiol.
- Gellir defnyddio ystod eang o ddulliau rheoli i leihau effaith mynediad.
- Gall rhai â budd cyfreithiol yn y tir (megis tirfeddianwyr, tenantiaid, rhai â hawliau hela) gyflwyno cyfyngiadau fel y gwelant yn ddoeth ac i wneud cais am gyfyngiadau ychwanegol ar gyfarwyddyd yr awdurdod perthnasol.

- Gellir cyflwyno tir fel tir mynediad a gellir rhoi hawliau ychwanegol ar dir mynediad CGHT os yw'r tirfeddiannwr ac eraill â budd cyfreithiol yn barod i wneud hynny.

## Cymorth

Efallai y bydd cyllid neu gymorth mewn da ar gael gan awdurdod mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru Cymru i gynorthwyo â'r mesurau sy'n angenrheidiol i roi mynediad neu reoli mynediad. Mae'n debygol y bydd y cymorth cyfyngedig sydd ar gael yn targedu safleoedd sensitif y mae disgwyl i nifer o ymwelwyr fynd iddynt.